



# Arolwg Llyfrau Plant a Phobl Ifanc: Adroddiad Terfynol

20 Gorffennaf, 2017

Siwan M. Rosser

Ysgol y Gymraeg  
Prifysgol Caerdydd

02920 874710

rossersm@caerdydd.ac.uk  
[www.caerdydd.ac.uk/cymraeg](http://www.caerdydd.ac.uk/cymraeg)

# Cynnwys

1.	RHAGYMDRODD .....	3
2.	CYFLWYNIAD.....	6
3.	CRYNODEB O'R ARGYMHELLION .....	10
4.	Y SYSTEM GRANTIAU.....	14
5.	GRWPIAU OEDRAN.....	17
6.	Y RHAGLEN GYHOEDDI .....	18
7.	CYFIEITHU .....	22
8.	DATBLYGU AWDURON .....	27
9.	IAITH AC ARDDULL .....	28
10.	HYRWYDDO LLYFRAU .....	30
11.	STRATEGAETH LLYFRAU PLANT AC OEDOLION IFANC.....	36
12.	Cyfeiriadau.....	37

## Diolchiadau

Hoffwn ddiolch yn fawr i Gyngor Llyfrau Cymru, staff a myfyrwyr Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, a'r holl gyfranogwyr am eu cymorth wrth ymgymryd â'r Arolwg hwn.

# RHAGYMADRODD

---

## RHAGYMADRODD

Credwn fod maes llyfrau plant ac oedolion ifanc yn un hanfodol bwysig i Gymru ar sawl lefel. Mae meithrin a datblygu darllenwyr ifanc yn allweddol yn ddiwylliannol ac yn fasnachol ond, yn anad dim arall, mae'n hanfodol i ddatblygiad unigolion a chymdeithas fodlon a gwybodus. Mae darparu'r deunydd priodol ar gyfer y darllenwyr hynny, boed yn analog neu'n ddigidol, yn sylfaenol o safbwynt masnachol a chymdeithasol.

Cyhoeddir yr adroddiad yng nghyd-destun strategaethau'r Llywodraeth ym maes Tlodi Plant, y Gymraeg a Llesiant Cymdeithasol, a chredwn fod maes llyfrau plant a phobl ifanc a'r ddarpariaeth sydd ar eu cyfer, waeth beth fo'u cefndir cymdeithasol neu ieithyddol, yn allweddol.

Adlewyrchir ein hymrwymiad i'r maes yn y ffaith i ni gomisiynu'r adroddiad hwn yn y lle cyntaf a hoffem ddiolch i Dr Siwan Rosser o Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, nid yn unig am ymgymryd â'r gwaith ond am gynhyrchu adroddiad safonol, defnyddiol a heriol. Tanlinellir yr ymrwymiad hwnnw ymhellach yn ein parodrwydd i weld yr adroddiad hwn, a'r ymateb iddo, yn gwneud cyfraniad canolog i'n cyfeiriad strategol dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r adroddiad yn bellgyrhaeddol ac yn atgoffa'r sector cyfan o'u rhan hwy yn y gadwyn o gynhyrchu llyfrau a hyrwyddo darllen.

Rydym yn falch o'r gwaith a wneir gennym i hwyluso'r ffordd i'r cyhoeddwyr gyhoeddi llyfrau Cymraeg a Saesneg safonol ar gyfer plant a phobl ifanc: o noddi a datblygu awduron a dylunwyr gwreiddiol ac addaswyr campus i gynnig gwasanaethau canolog sy'n allweddol i gynnal safonau yn y diwydiant; o ddarparu gwybodaeth am lyfrau a deunydd hyrwyddo cyffredinol, yn analog a digidol, i hyfforddi a noddi'r cyhoeddwyr i farchnata eu cyhoeddiadau eu hunain. Ymhellach, mae'r Ganolfan Ddosbarthu yn cynnig gwasanaethau amhrisiadwy i gyhoeddwyr a llyfrwerthwyr ledled Cymru. Heb y Ganolfan fe fyddai'n anodd i lawer o'r siopau hyn oroesi yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni a pharhau, nid yn unig i werthu llyfrau, ond hefyd i weithredu fel canolfannau cymdeithasol gwerthfawr sy'n cynnal cymunedau gwydn. Yn yr un modd, mae Gwales yn dosbarthu copïau ac yn cynnig gwasanaeth ar-lein i'r rhai sydd heb siop lyfrau'n lleol, gan wasanaethu cymunedau Cymraeg a Chymreig rhyngwladol. Credwn fod y rôl hon, sy'n cynnig cyfeiriad a chefnogaeth i'r diwydiant, yn cael ei hadlewyrchu yn yr adroddiad hwn.

Yn yr un modd, mae'r adroddiad yn ein hatgoffa pa mor bwysig yw hi fod y cyhoeddwyr a'r llyfrwerthwyr yn hyblyg a chreadigol wrth ymateb i anghenion y farchnad, ac yn bod yn rhagweithiol yn eu hymdrechion i werthu eu cynnyrch. Eto, mae'r adroddiad yn mynd ymhellach gan edrych ar rôl rhieni ac athrawon ac ar rôl y cyfryngau newydd a thraddodiadol wrth gyrraedd y rhieni a'r

athrawon hynny. Ond wrth gwrs, fe'n hatgoffir ni hefyd o rôl ganolog y Llywodraeth yn cynnig arweiniad strategol a chyllid yn y meysydd hynny sydd mor ganolog i'w cenhadaeth hwy; meysydd y mae'r adroddiad hwn, yn ei dro, yn ganolog iddynt.

Yn hynny o beth, edrychwn ymlaen at drafod yr adroddiad nid yn unig gyda'r sector cyhoeddi ond gydag adrannau perthnasol o'r Llywodraeth, cynrychiolwyr y darlledwyr ac unrhyw bartneriaid eraill sy'n berthnasol i'r maes. Byddwn yn rhagweithiol wrth ymgyrraedd at y nod hwn, ond byddwn yr un mor barod i ymateb i ymholiadau gan gyrrff eraill sy'n frwd i fod â rhan yn y gwaith.

Gofynna'r adroddiad sawl cwestiwn ynglŷn â chynulleidfaedd llyfrau Cymraeg, a chredwn fod gennym rôl strategol yn canfod y cynulleidfaedd hynny, ac yn cynorthwyo'r cyhoeddwyr wrth iddyn nhw fynd ati i geisio'u cyrraedd. Does dim dwywaith nad oes angen meithrin y gynulleidfa draddodiadol. Yn gyffredinol, mae gwerthiant ar i lawr ac mae'r her o ddenu pobl ifanc i ddarllen yn un barhaus os nad parhaol. Fodd bynnag, mae i'r gynulleidfa ddarllengar honno ei gweddau gwahanol yn ogystal. Er enghraifft, rhaid holi a yw'r wybodaeth a ddarperir ar hyn o bryd yr un mor addas i gartrefi Cymraeg eu hiaith ag ydyw i gartrefi dwyieithog neu ddi-Gymraeg, lle mae'r rhieni yn prynu ar ran eu plant. Mae pa wybodaeth sydd ei hangen ar y cynulleidfaedd hyn, a sut i gyrraedd atynt drwy ddulliau digidol a thraddodiadol, yn gwestiynau hanfodol i'w hateb.

Ond ymhlyg yn hyn hefyd mae her sydd hyd yn oed yn fwy, sef cyrraedd darllenwyr anfoddog a'r rhannau hynny o gymdeithas lle nad yw darllen, ac yn arbennig darllen er pleser, yn ystyriaeth bwysig o gwbl. Mae'r rhesymau dros hyn yn lleng, ond rydym yn gobeithio bod cyhoeddi'r adroddiad hwn yn rhoi rheswm i ni fynd ati i drafod â phartneriaid sydd â phrofiad o weithio yn y maes.

Byddwn yn mynd ati i weithredu rhai o'r argymhellion ar unwaith trwy addasu gweithdrefnau mewnol, trwy drefnu hyfforddiant, cynadleddau ac ymchwil marchnad, a thrwy wahodd y diwydiant, partneriaid allanol ac adrannau'r Llywodraeth i ymateb a thrafod y ffyrdd y gallen nhw gyfrannu at y broses.

Dibynna argymhellion eraill ar ddatblygiadau pellach o fewn y Cyngor. Mae'r adroddiad yn un amserol ar sawl cyfrif, ond yn arbennig felly yng nghyd-destun y datblygiadau technolegol y bydd eu hangen i wireddu nifer o'r argymhellion hyn. Rydym wrthi'n ystyried dyfodol y systemau cyfrifiadurol sy'n rheoli ein stoc a'n data. Y systemau hyn a'u cynnwys sy'n rhoi'r data craidd i'r diwydiant am y llyfrau, ac mae'n hanfodol ein bod yn rhoi'r 'wybodaeth iawn i'r bobl iawn ar yr amser iawn', yn arbennig yn y byd digidol a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Bydd yr argymhellion hyn yn bwydo i mewn i fanyleb y system newydd honno ac i'r cais am gyllid a fydd yn deillio o hynny.

Bydd nifer o argymhellion eraill, megis yr awydd i symud at farchnad fwy cytbwys o ran llyfrau gwreiddiol ac addasiadau, yn ddibynnol ar lwyddiant ein hymdrechion i hwyluso creu a hyrwyddo gwybodaeth am lyfrau Cymraeg, ac ar barodrwydd y cyhoeddwyr i fentro creu a marchnata llyfrau ar gyfer y farchnad hon. Ond o ran hynny, ac o ran nifer o feysydd eraill sy'n berthnasol i'r farchnad lyfrau, mae'r adroddiad hwn wedi gosod y cyfeiriad y mae'r Cyngor am deithio iddo dros y blynyddoedd nesaf, ac edrychwn ymlaen at ei gyflwyno i baneli a phwyllgorau'r Cyngor.

**Helgard Krause**  
Prif Weithredwr  
Cyngor Llyfrau Cymru  
Hydref 2017

## CYFLWYNIAD

---

Mae llyfrau plant yn hanfodol i'r diwydiant llyfrau yng Nghymru. Mae dros hanner (57%) prynwyr llyfrau Cymraeg yn prynu llyfrau Cymraeg i blant (Adroddiad Beaufort 2017, t.16). Ceir gan ein cyhoeddwyr enghreifftiau gwych o arloesi a chynhyrchu llyfrau atyniadol o'r safon uchaf. O ganlyniad mae'r mwyafrif a gyfrannodd i'r Arolwg hwn, yn blant ac oedolion, yn ymfalchïo yn ansawdd ac amrywiaeth llyfrau Cymraeg i blant. Mae'r llyfrau hyn hefyd, wrth gwrs, yn greiddiol i ateb anghenion ieithyddol, addysgol a phersonol plant Cymru ac i ddatblygu cenedl ddwyieithog hyderus. Mae darllen er pleser yn y Gymraeg yn meithrin a sefydlu patrymau ieithyddol ac ymdeimlad o berchnogaeth a pherthyn i Gymru; mae'n datblygu sgiliau gwybyddol, creadigrwydd ac annibyniaeth barn; ac mae'n arwain at fudd addysgol, emosiynol a chymdeithasol ehangach. Nid gweithgaredd ymylol mohono felly, ond un sy'n siapio agweddau ynghylch lle'r Gymraeg yn nyfodol Cymru.

Dylid felly ystyried y gefnogaeth a roddir i lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion ifanc yng nghydestun polisiau Llywodraeth Cymru ynghylch addysg, diwylliant a lles cymdeithasol. Mae Adroddiad Donaldson yn pwysleisio bod magu cariad at ddarllen 'yn cyfoethogi bywydau ac yn cyfrannu at les yn awr ac yn y dyfodol' (2015, t.48). Hefyd, mae meithrin sgiliau llythrennedd cadarn ac ysbrydoli diddordeb yn y Gymraeg a'i diwylliant ynghlwm wrth amcan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i greu 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' ac yn hanfodol er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o Filiwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Ymhellach, rhaid wrth fynediad rhwydd at amrywiaeth o lyfrau apelgar i ddarllenwyr ifanc o gefndiroedd amrywiol er mwyn greu 'Cymru sy'n fwy cyfartal' (Deddf Llesiant, 2015) a gweithredu amcanion Strategaeth Tlodi Plant Cyngor Llyfrau Cymru (2016).

Nid oes modd gwireddu uchelgais Llywodraeth Cymru na gweledigaeth yr Athro Donaldson a chreu rhagor o siaradwyr Cymraeg hyderus eu sgiliau cyfathrebu a huawdl eu defnydd o'r Gymraeg heb wreiddio ynddynt gariad at ddarllen yn y Gymraeg. Darllen yw un o hanfodion caffael iaith, a rhaid wrth gysylltiad cyson â'r iaith ysgrifenedig er mwyn sefydlu gafael gadarn arni. Darllen amrediad o lyfrau sy'n cyffroi'r dychymyg yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol ac atyniadol o gynnal y cysylltiad hwnnw. Mae hynny'n wir am unrhyw iaith, ond yn achos iaith leiafrifol fel y Gymraeg mae'n magu mwy o arwyddocâd fyth, gan fod darllen yn cynnig ffordd rad a hygyrch i gynnal cyswllt rheolaidd ag iaith a all fod yn ymylol, ac weithiau'n anweladwy, ym mhrofiad rhai plant y tu hwnt i furiau'r ysgol.

O ganlyniad, rhaid ymdrin â'r diwydiant cyhoeddi Cymraeg fel menter fasnachol ac iddi fudd cymdeithasol a chyfalaf diwylliannol sylweddol. Dibynna ar gydberthynas y sector cyhoeddus a'r

sector preifat. Mae'r nawdd cyhoeddus a roddir i lyfrau plant yn cynnal y diwydiant cyhoeddi, a'r diwydiant cyhoeddi o ganlyniad yn darparu'r llyfrau sy'n galluogi ein plant i gaffael y Gymraeg a meithrin yr hyder i'w defnyddio i gyfathrebu ac i greu. Cyngor Llyfrau Cymru yw'r corff canolog yn y berthynas hon, sy'n trosi nawdd Llywodraeth Cymru yn gynllun gweithredu â'r nod o gynnal a hyrwyddo diwydiant llyfrau bywiog, cyfoethog a llawn dychymyg.

Fodd bynnag, mae'n gyfnod anodd iawn i bawb sy'n ymwneud â'r byd llyfrau yng Nghymru. Mae cyfyngiadau ar arian cyhoeddus yn cael effaith uniongyrchol ar y nifer a'r amrediad o lyfrau sy'n cael eu prynu ar gyfer y cartref, yr ysgol a'r llyfrgell. Yn ogystal, mae rhai o'r prif weithgareddau er mwyn rhannu gwybodaeth am lyfrau (a chreu marchnad ar eu cyfer) wedi eu cwtogi neu wedi dod i ben (e.e. Clwb Llyfrau i blant ('Sbondonics' gynt), copi caled Catalog Llyfrau Plant (ar gael ar y we/CD-R bellach), cynhadledd llyfrau plant). Yn wyneb sefyllfa argyfyngus, da gweld bod y Cyngor Llyfrau, drwy gomisiynu'r Arolwg hwn a phrosiectau ymchwil eraill yn y maes (Jones 2014, Thomas 2014) yn barod i edrych o'r newydd ar ei ddarpariaeth a'i rôl yn cefnogi'r diwydiant cyhoeddi llyfrau Cymraeg.

Diben yr Arolwg hwn oedd craffu ar y llyfrau plant ac oedolion ifanc\* a gyhoeddir dan nawdd Cyngor Llyfrau Cymru yn flynyddol, a pherthynas hynny â hyrwyddo a gwerthiant, a chynnig barn ar gyfeiriad y maes hwn dros y blynyddoedd nesaf.

'Llyfrau', felly, yw ffocws yr Arolwg (yn hytrach na 'llynyddiaeth' yn ystyr ehangach y gair). Roedd y cyfranogwyr o bob sector yn diffinio llyfrau i'w darllen er pleser gan blant iau yn bennaf fel gwrthrychau materol, rhwng cloriau papur. Roedd hyn hefyd yn wir am lyfrau oedolion ifanc, ond roedd mwy o alw am e-lyfrau ar gyfer y grŵp oedran hwn er mwyn cynyddu'r dewis i'r darllenydd. O ganlyniad, mae'r adroddiad hwn yn cymryd yn ganiataol y gall 'llyfr' fod ar ffurf print yn unig, print ac e-lyfr, neu e-lyfr yn unig, yn dibynnu ar natur y cyhoeddiad unigol. Gwelai nifer o gyfranogwyr botensial technoleg ddigidol i ddenu darllenydd at lyfr ac ymestyn a chyfoethogi eu profiad o'r cynnwys, a soniodd nifer fawr am botensial creadigol technoleg ddigidol i greu a rhannu cynnwys newydd. Yn sgil hynny, mae'r adroddiad hwn yn pwysleisio y dylai llyfrau a phrofiadau darllen plant a phobl ifanc fod yn rhan o rwydwaith diwylliannol ehangach digidol ac amlgyfrwng sy'n datblygu sgiliau llythrennedd ac yn symblu creadigrwydd darllenydd ac ysgrifenydd ifanc.

[\*Mabwysiadwyd y term cyffredinol 'llyfrau oedolion ifanc' ar gyfer cyhoeddiadau ar gyfer grŵp oedran 12–14 a 14+, er y dylid cydnabod bod gwahaniaeth sylfaenol yng nghynnwys ac aeddfedrwydd deunyddiau ar gyfer arddegwyr cynnar o gymharu â darllenydd 14+. Roedd hi'n briodol cynnwys llyfrau ar gyfer yr oeddrannau hyn yn yr Arolwg hwn gan eu bod yn pontio rhwng llynyddiaeth plant a llyfrau oedolion.]

## METHODOLEG

Yn ogystal ag archwilio'r data ar y cyhoeddiadau, dogfennaeth Cyngor Llyfrau Cymru ac ymchwil gyfredol yn y maes, ymgynghorwyd â chynrychiolwyr o'r grwpiau hyn drwy holiadur ar-lein, cyfweiliadau a grwpiau ffocws:

CYNHYRCHWYR: cyhoeddwyr, awduron, Cyngor Llyfrau Cymru, Adran Addysg Llywodraeth Cymru

DARPARWYR: llyfrwerthwyr, llyfrgelloedd

DEFNYDDWYR: prynwyr, darllenwyr, plant, oedolion ifanc, rhieni, athrawon

Rhannwyd y ddolen i'r holiaduron ar-lein drwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r cyfryngau traddodiadol (e.e. Golwg) a thrwy dargedu rhan-ddeiliaid penodol e.e. rhestrau postio ysgolion, consortia, llyfrwerthwyr, cyhoeddwyr. Rhaid nodi cyfyngiadau'r dull hwn o gasglu data (y tuedd tuag at ymatebwyr sy'n dilyn cyfrifon Cymraeg ar *Twitter* ac sy'n dilyn materion cyfoes drwy gyfrwng y Gymraeg). Yn ogystal, cynhaliwyd grwpiau ffocws a chyfweiliadau â chynrychiolwyr o'r byd cyhoeddi, llyfrwerthu ac â disgyblion ysgol (cynradd ac uwchradd).

Roedd yr holiaduron ar-lein ar gael am gyfnod o 6 wythnos (15 Tachwedd – 8 Ionawr) a'r targed ar gyfer ymatebion oedd 150. Cafwyd 222 ymateb i'r holiadur ar-lein Cymraeg, a 27 ymateb i'r holiadur ar-lein Saesneg. Mae'r ymatebion yn cynnwys cynrychiolwyr o bob sector. Bwriad yr holiadur Saesneg oedd ymgysylltu'n bennaf â rhieni di-Gymraeg sy'n anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Dyma randdeiliaid pwysig a esgeulusir, i raddau helaeth, ac mae'r ymateb isel i'r holiadur yn adlewyrchu'r diffyg rhwydweithiau cyfleus i'w cyrraedd. Sylwer hefyd nad yw adroddiadau ymchwil Beaufort Research (2003–2016) yn cynnwys rhieni di-Gymraeg â phlant mewn ysgolion Cymraeg yn eu harolwg omnibws ar brynu a darllen llyfrau Cymraeg. Cynhaliwyd cyfweiliadau unigol â rhieni di-Gymraeg neu sy'n dysgu'r iaith er mwyn ehangu'r data a gafwyd yn yr holiadur ar-lein.

Dehonglwyd data'r holiaduron a sylwadau'r cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws er mwyn pwyso a mesur y gwahanol agweddau tuag at nifer, ystod ac amrywiaeth y llyfrau Cymraeg sydd ar gael i blant a phobl ifanc.

Sylwer: Cynhaliwyd y gwaith maes yn unol â pholisi Moeseg Ymchwil, Prifysgol Caerdydd. Cynhaliwyd peilot o'r holiadur ar-lein gyda rhieni, plant a staff y Cyngor Llyfrau, a gwnaethpwyd rhai mân ddiwygiadau yn sgil eu hadborth. Mae cwestiynau'r holiaduron ar-lein ar gael er diben cyfeirio.

Amcan yr argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn yw awgrymu gwelliannau i'r sefyllfa bresennol a fydd yn sicrhau bod pob agwedd ar ein hymwneud â llyfrau plant ac oedolion ifanc yn cyfrannu at y nod o greu darllenwyr gydol-oes. Yn wyneb datblygiadau diwylliannol a thechnolegol trawsnewidiol, y mae hon yn her sylweddol. Wrth reswm, nid y Gymraeg yn unig sy'n ei chael hi'n anodd cadw darllenwyr, yn enwedig ym mlynnyddoedd yr arddegau. Mae ffactorau cymdeithasol, diwylliannol a thechnolegol lu yn effeithio ar yr amser a roddir i ddarllen, ac y mae llawer o'r rheini y tu hwnt i ddylanwad y Cyngor Llyfrau. Ond bydd yr



adroddiad hwn yn amlinellu rhai elfennau sy'n neilltuol i'r sefyllfa Gymraeg y gellir eu gwella er mwyn cyfoethogi profiadau darllen yr ifanc yn y Gymraeg a gwneud y farchnad lyfrau yn fwy agored a hwylus i ddefnyddwyr.

Mae i ganfyddiadau'r Arolwg hwn oblygiadau i waith Pwyllgor Grantiau, Adran Plant ac Adran Farchnata Cyngor Llyfrau Cymru. Ni ellir gwahaniaethu rhwng y meysydd hyn gan ei bod yn amlwg mai un o ganfyddiadau pennaf yr ymchwil hwn yw bod 98% o'r ymatebwyr – yn blant ac oedolion – yn credu bod angen rhoi mwy o sylw i lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion ifanc, a bod canran sylweddol yn teimlo nad oes ganddynt wybodaeth ddigonol am y llyfrau sy'n addas ar gyfer darllenwyr ifanc. Hyrwyddo a marchnata oedd prif achos pryder cyhoeddwy a llyfrwerthwyr ynghylch y sefyllfa bresennol, a dymument weld rhagor o arweiniad gan Gyngor Llyfrau Cymru ar y materion hynny.

Ond yn ogystal â chydlynu ymgyrchoedd a darparu gwybodaeth i'r cyhoedd, y sector addysg a llyfrgelloedd, er mwyn cynyddu natur weledol llyfrau plant rhaid i Gyngor Llyfrau Cymru gydweithio â phartneriaid allanol i sicrhau y rhoddir i lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion ifanc statws amlwg o fewn y byd cyhoeddi, byd addysg, ac yn ein cymdeithas yn gyffredinol. Mae agweddau plant a phobl ifanc at ddarllen yn dibynnu ar y gwerth a roddir ar lyfrau gan y gymuned y perthynant iddi. Rhaid felly ehangu'r cylch sy'n darllen llyfrau plant ac oedolion ifanc a'u trafod. Mae hynny'n golygu cymell rhagor o oedolion, yn ogystal â phlant a phobl ifanc, i ddarllen llyfrau ar gyfer darllenwyr iau ac ymddiddori ynddynt.

Er mwyn gweithredu argymhellion yr adroddiad hwn rhaid wrth strategaeth eglur gan y Cyngor Llyfrau, partneriaethau effeithiol â sefydliadau eraill, a chynnydd yn y nawdd ar gyfer llyfrau plant ac oedolion ifanc gan Lywodraeth Cymru. O sicrhau rhagor o fuddsoddi i ddatblygu awduron, llyfrau ac adnoddau a fydd yn arwain at gynyddu'r sylw a roddir i lyfrau Cymraeg ar lawr y dosbarth ac yn ein diwylliant yn gyffredinol, mae modd cynnal cymuned ddarllen hyfyw y bydd rhagor o'n darllenwyr ifanc am fod yn rhan ohoni.

# CRYNODEB O'R ARGYMHELLION

Ymchwil a gomisiynwyd gan Banel Grantiau Cyhoeddi Cyngor Llyfrau Cymru, 2016 – 2017:  
**Nifer, ystod ac amrywiaeth llyfrau Cymraeg i blant ac oedolion ifanc, gwerthiant a hyrwyddo**

## Y SYSTEM GRANTIAU

1: Dylai Cyngor Llyfrau Cymru adolygu'r system grantiau er mwyn creu amodau mwy ffafriol i annog cyhoeddwy i lunio rhagor o geisiadau am gyhoeddiadau gwreiddiol i blant, llyfrau ar gyfer oedrannau hŷn a phrosiectau ar y cyd rhwng awduron a darlunwyr.

2: Er mwyn cydlynu ymgyrchoedd marchnata llyfrau newydd yn fwy effeithiol, dylai Cyngor Llyfrau Cymru ddiffinio natur 'marchnata sylfaenol' llyfrau plant ac oedolion ifanc a ariennir ganddynt yn fanylach. Hefyd, dylid llunio canllawiau ar gyfer cyhoeddwy i gyd-fynd â'r Grant Marchnata yn cynnig syniadau a chefnogaeth ynghylch ymgysylltu â chynulleidfaoedd ifanc.

## GRWPIAU OEDRAN

3: Dylid cysoni'r cyfeiriadau at oedrannau targed ar draws cyhoeddiadau a dogfennaeth y Cyngor. Hefyd, dylid cynnwys oedran targed ar gofnod pob llyfr ar Gwales a'r wefan llyfrau plant arfaethedig, a'i gwneud yn bosibl i chwilota yn ôl oedran.

## Y RHAGLEN GYHOEDDI

4: Dylai'r Cyngor Llyfrau gymell cyhoeddwy i gynhyrchu mwy o lyfrau ar gyfer darllenwyr 8+ a chwtoegi ar y cyhoeddiadau ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Dylid cynyddu'r nifer o lyfrau ffuglen gwreiddiol i blant 8–11 a 12+ (a ffurfio cyfresi â brandiau cryfion) a llyfrau ffeithiol ar bynciau cyfredol.

5: Dylid sicrhau bod cefndir, sefyllfaoedd a chymeriadau llyfrau plant ac oedolion ifanc yn adlewyrchu ystod ehangach o brofiadau Cymry ifanc heddiw.

6: Dylid ystyried ailgyhoeddi llyfrau poblogaidd Cymraeg neu 'glasuron' o'r gorffennol, a'u diweddarau yn rhan o genre neu gyfres benodol er mwyn creu marchnad ac iddi frand cynhenid cryf sy'n para o un genhedlaeth i'r llall. Er mwyn sicrhau darllenwyr ar gyfer y llyfrau hyn, bydd rhaid llunio strategaeth addasu priodol ar gyfer pob testun (o safbwynt iaith ac arddull, cynnwys a diwyg). Hefyd, dylid ystyried cynnwys cyfieithiadau o 'glasuron' rhyngwladol (e.e. *Pippi Hosan Hir*) nad ydynt bellach ar gael yn y Gymraeg ymhlith yr ailgyhoeddiadau hyn.

7: Dylid archwilio ymhellach natur a diben llyfrau dwyieithog ac annog defnydd mwy hyblyg a chreadigol o'r ddwy iaith er mwyn rhoi blaenoriaeth i gynorthwyo plant ac oedolion i ddarllen a deall y testun Cymraeg.

8: Dylai cyfieithu llyfrau plant ac oedolion ifanc i'r Gymraeg gael ei gydnabod yn grefft arbenigol, a dylid blaenoriaethu cynlluniau cyfieithu a fydd yn darparu profiad darllen cyfoethog i'r darllenydd Cymraeg. Yn sgil hynny, dylid cefnogi cynlluniau cyfieithu sy'n ymestyn a chyfoethogi'r ddarpariaeth sydd ar gael yn y Gymraeg neu'n cynnig profiad darllen amgen yn y Gymraeg.

9: Rhaid sicrhau bod natur pob cyfieithiad yn addas at ddibenion y llyfr dan sylw. Os apelio at ddarllenwyr llai hyderus eu Cymraeg yw bwriad y llyfr, yna rhaid i'r cynnwys ieithyddol adlewyrchu hynny. Yn yr un modd, os ymestyn darllenwyr rhugl yw'r bwriad, yna dylid canfod teitlau llai cyfarwydd (o'r Saesneg ac ieithoedd eraill) er mwyn rhoi profiad darllen cwbl newydd a heriol iddynt. Dylid cydweithio â Chyfnwidfa Lên Cymru er mwyn adnabod cyfleon i addasu gweithiau rhyngwladol.

10: Ni ddylai Cyngor Llyfrau Cymru ariannu mwy o gyfieithiadau na llyfrau gwreiddiol bob blwyddyn.

11: Dylai Cyngor Llyfrau Cymru gydweithio â phartneriaid allanol gan gynnwys y cyhoeddwr, Llenyddiaeth Cymru, y cyfryngau, yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol i ddatblygu gweithgareddau i sbarduno syniadau ac i fentora awduron.

12: Dylai Cyngor Llyfrau Cymru arwain trafodaeth ar iaith ac arddull llyfrau Cymraeg ar gyfer ystod o oedrannau a gallu a sicrhau bod ei raglen gyhoeddi yn cynnwys llyfrau ar lefelau ieithyddol priodol, eglur ac amrywiol, er mwyn apelio at ddarllenwyr a chanddynt anghenion gwahanol.

## **HYRWYDDO LLYFRAU**

13: Dylid mynd ati'n benodol i ymgysylltu â **rhieni** er mwyn pwysleisio pwysigrwydd darllen yn y cartref a'u cynorthwyo i fod yn rhan o brofiad darllen eu plant drwy gydlyn adnoddau ar-lein dwyieithog, bywiog a deniadol i gyd-fynd â chyhoeddiadau gwreiddiol a chydweithio ag ysgolion er mwyn rhannu gwybodaeth am lyfrau.

14: Dylai Cyngor Llyfrau Cymru gydweithio ymhellach â **Llyfrgelloedd Cymru** er mwyn cynnig llwybrau clir i ddarllenwyr o'r naill lyfr i'r llall.

15: a) Dylai Cyngor Llyfrau Cymru bwysu ar Lywodraeth Cymru i gynyddu'r hyfforddiant a roddir i **athrawon** (yn rhan o'u hyfforddiant cychwynnol, a'u datblygiad proffesiynol wedyn) am

ddarllen er pleser yn y Gymraeg a chreu adnodd a fydd yn caniatáu i athrawon rannu gwybodaeth, adolygiadau ac argymhellion am lyfrau (e.e. ar yr Hwb).

b) Dylai'r Cyngor Llyfrau ddarparu cyngor a gwybodaeth i gefnogi'r hyfforddiant hwn gan bwysu am nawdd i ddatblygu mwy ar Wasanaeth Ysgolion y Cyngor.

16: Dylid parhau i gefnogi **siopau** llyfrau, yn arbennig eu hymdrechion i gynyddu eu defnydd o'r we a'r cyfryngau cymdeithasol ac i gynnal gweithgareddau mewn ysgolion ac yn y gymuned. Law yn llaw â hynny, rhaid cynnig ystod ehangach o ffyrdd i weld a phrynu llyfrau er mwyn cyrraedd prynwyr newydd.

17: Mae angen **gwefan** benodol ar gyfer llyfrau plant, gydag is-adran ar gyfer llyfrau oedolion ifanc (a thudalennau neilltuol ar gyfer rhieni ac athrawon) er mwyn i ddarllenwyr chwilota am lyfrau a chael mynediad at ddeunydd amrywiol gan gynnwys adolygiadau, clipiau fideo a'r newyddion diweddaraf am lyfrau ac awduron.

18: Dylid archwilio'r posibilrwydd o sefydlu **clwb darllen** i blant ac oedolion ifanc lle mae ymdeimlad cryf o berthyn a mantais o fod yn aelod (e.e. gostyngiad ar lyfrau, rhywbeth am ddim) ond lle nad oes gofynion gweinyddol ar ran ysgolion unigol.

19: Yn hytrach na darparu catalog cyflawn blynyddol o'r holl gyhoeddiadau, dylid llunio **Canllaw Darllen** (Reading Guide) sy'n rhoi sylw i ddetholiad penodol o gyhoeddiadau i blant a phobl ifanc. Bydd yr adnodd hwn yn argymhell llyfrau, yn hytrach na'u rhestru, a bydd yn ganllaw hylaw ar gyfer darllenwyr, rhieni, llyfrgellwyr ac athrawon.

20: Dylid ehangu'r cylch o bobl sy'n darllen llyfrau plant yn rheolaidd a'u defnyddio i greu rhwydwaith o sesiynau cynghori ar lyfrau.

21: Dylai Cyngor Llyfrau Cymru gydweithio'n agos ag S4C a BBC Radio Cymru er mwyn cynyddu cefnogaeth y **cyfryngau** i ddarllen. Yn y cyfryngau print, dylid cydweithio â *Go!wg*, cylchgronau'r Urdd, papurau bro ac ati er mwyn pwysu am ragor o sylw i lyfrau plant ac oedolion ifanc. Dylid hefyd gydweithio â phartneriaid yn y cyfryngau i ddatblygu platfformau i rannu a chreu cynnwys llenyddol a chreadigol a rhoi lle canolog i leisiau plant ac oedolion ifanc.

22: Dylai Cyngor Llyfrau Cymru gynnal **cynadleddau rheolaidd** (gyda deunydd cefnogol ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol) a fydd yn rhoi'r cyfle i bobl o bob sector sy'n ymwneud â llyfrau plant rwydweithio a datblygu sgiliau a syniadau newydd.

23: Dylid llunio **Strategaeth Llyfrau Plant** sy'n datgan yn hyderus y rôl arweiniol y mae Cyngor Llyfrau Cymru yn ei gymryd ym maes llyfrau Cymraeg i blant ac oedolion ifanc. Bydd y strategaeth yn datgan cefnogaeth y Cyngor i gynnal diwydiant cyhoeddi llyfrau plant hyfyw sy'n - cefnogi mentergarwch ac arloesi

- cydnabod a hyrwyddo crefft arbennig awduron, darlunwyr a golygyddion llyfrau plant ac oedolion ifanc
- cynnig cydbwysedd priodol o ddeunydd gwreiddiol ac addasiadau
- cynhyrchu deunydd amrywiol, atyniadol ei ddiwyg a hygyrch ei gynnwys a'i iaith, ar gyfer amrediad eang o ddarllenwyr o bob cefndir
- darparu adnoddau i gyfoethogi gwybodaeth oedolion (e.e. rhieni, athrawon a llyfrgellwyr) am lyfrau plant ac ennyn eu brwdfrydedd a'u cefnogaeth
- arwain cydweithio â phartneriaid allanol er mwyn hyrwyddo darllen a chreadigrwydd ar blatfformau amlygyfrwng a gwneud llyfrau'n rhan fwy gweladwy o ddiwylliant ehangach plant a phobl ifanc

# Y SYSTEM GRANTIAU

---

## TÂL AWDURON

Noddir llyfrau plant ac oedolion ifanc mewn dwy ffordd. Cynigir Grantiau Rhaglen a Grantiau Llyfrau Unigol i gyhoeddwr er mwyn cynhyrchu'r llyfrau. Mae hynny'n caniatáu i gyhoeddwr gynnig amrediad o deitlau i'w cyhoeddi, a'r rhyddid i reoli'r amrediad hwnnw er mwyn ymateb i'r galw. Yn ogystal â hynny, cynigir nawdd i awduron drwy gyfrwng Grantiau Awdur (A) ac Awdur (B). Fodd bynnag, nid yw telerau'r grantiau hynny yn ddigonol i roi tâl teilwng i awduron gynhyrchu llyfrau swmpus, gwreiddiol yn y Gymraeg neu gyfieithiadau celfydd o nofelau rhyngwladol o bwys (yn arbennig ar gyfer oeddrannau 12+).

Mae nifer o awduron wedi lleisio eu hanfodlonrwydd ynghylch yr arian a delir iddynt yn gyhoeddus dros y blynyddoedd diwethaf. Ategwyd y pryderon hynny yn y dystiolaeth a gasglwyd yn rhan o'r Arolwg hwn, gan fod nifer o gyfranogwyr yn credu bod diffyg tâl haeddiannol i awduron ac amodau'r grantiau presennol yn effeithio'n negyddol ar nifer a sylwedd y cyhoeddiadau gwreiddiol sydd ar gael.

Canfyddiad yr Arolwg hwn yw y gall newidiadau i ganllawiau grantiau'r Cyngor Llyfrau greu amodau mwy ffafriol i annog cyhoeddwr i ddenu awduron i ysgrifennu llyfrau uchelgeisiol yn y Gymraeg.

Mae'r Grant Awdur (A) yn cynnig tâl mwy sylweddol i awduron (£5,000–12,000), ond mae amodau'r grant ar hyn o bryd yn datgan mai llyfrau oedolion sy'n cael blaenoriaeth: 'Mae pwyslais y cynllun ar lyfrau i oedolion, ond nid yw'n gyfyngedig i lyfrau oedolion. Gall cyhoeddwr gyflwyno cais o dan Gynllun A ar gyfer comisiynu cyfres fer o lyfrau byr gan yr un awdur, ac mae hynny yn gallu bod yn addas ar gyfer comisiynu llyfrau plant neu bobl ifanc.' Er nad yw'r datganiad hwn yn nacáu'r cyfle i fuddsoddi mewn llyfrau plant ac oedolion ifanc, nid yw'n creu amgylchedd sy'n rhoi gwerth digonol ar gynhyrchu deunydd ymestynnol gwreiddiol i'r ifanc yn y Gymraeg. Mae'r Grant Awdur (B) yn cynnig hyd at £3,000 i awduron, ac yn cael ei weld fel ffordd o feithrin awduron newydd. Ni nodir blaenoriaeth i lyfrau oedolion yn amodau'r grant hwn, ond gellid cryfhau'r geiriad i gymell cyhoeddwr i ddefnyddio'r grant hwn i ddatblygu talent ysgrifennu newydd ar gyfer darllenwyr ifanc.

Dylid hefyd ystyried sut i hwyluso darlunwyr ac awduron i gydweithio ar ragor o brosiectau. Mae cyfrolau darluniadol hardd a gwreiddiol wedi ymddangos yn achlysurol o'r wasg yn ddiweddar, ond dylid ei gwneud yn anghenraid i ddatblygu prosiectau rheolaidd a chynnal safonau dylunio uchel ar draws y rhaglen gyhoeddi. Byddai sefydlu cynhadledd a rhwydwaith i awduron a darlunwyr (gw. Hyrwyddo Llyfrau) yn annog rhagor o gydweithio rhwng awduron, darlunwyr a chyhoeddwr.

**ARGYMHELLIAD 1: Dylai Cyngor Llyfrau Cymru adolygu'r system grantiau (a newid amodau'r cynllun Grant Awdur (A a B)) er mwyn creu amodau mwy ffafriol i annog cyhoeddwy'r lunio rhagor o geisiadau am gyhoeddiadau gwreiddiol i blant, llyfrau ar gyfer oeddrannau hŷn a phrosiectau ar y cyd rhwng awduron a darlunwyr.**

### **MARCHNATA LLYFRAU NEWYDD**

Wrth resymoli'r system grantiau, dylid hefyd adolygu'r gofynion ar gyhoeddwy'r i hyrwyddo'r llyfrau a ariennir gan y Cyngor Llyfrau, a'r gefnogaeth y gallant hwythau ddisgwyl ei chael gan y Cyngor. Mae'r gofynion a'r gefnogaeth yn aneglur ar hyn o bryd. Er enghraifft, mae disgwyl i'r cyhoeddwy'r 'wneud ac ysgwyddo'r gost am waith marchnata sylfaenol' y cyfrolau a ariennir o dan y Grant Rhaglen a'r Grant Llyfrau Unigol, ond ni eglurir ystyr 'gwaith marchnata sylfaenol'. Dylid diffinio'n fanylach yr hyn y mae 'marchnata sylfaenol' yn ei olygu (gydag ystyriaeth arbennig i'r dulliau digidol diweddaraf). Awgrymir y gallai'r 'marchnata sylfaenol' hwn gynnwys adolygiad gan ddarllenwydd o'r oedran targed priodol (ysgrifenedig a/neu glip fideo) a disgrifiad byr sy'n mapio'r llyfr ar ofynion y cwricwlwm ar gyfer athrawon.

Tystiodd nifer o gyfranogwyr yr Arolwg hwn i sefyllfa lle y mae llyfrau yn cael eu cyhoeddi heb i fawr o neb sylwi arnynt. Mae eithriadau i hynny, wrth gwrs, a chanmolwyd presenoldeb rhai gweisg ar y cyfryngau cymdeithasol yn arbennig – er mai targedu oedolion a wna'r cyfryngau hynny, yn bennaf. Y gweithgareddau a anelir at y darllenwyr targed eu hunain a ddenodd y ganmoliaeth bennaf gan y cyfranogwyr – ymweliadau ysgolion, gwahodd plant i adolygu llyfrau a chreu clipiau fideo ohonynt ac ati. Y mae budd i'r gweithgareddau hyn ar sawl lefel – cynyddu ymwybyddiaeth o'r llyfr, hyrwyddo darllen yn gyffredinol, cyfoethogi profiad addysgol y plentyn a'i ymwybyddiaeth o le'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae'r Cyngor Llyfrau eisoes yn cydnabod yr anghenion ariannol ychwanegol sydd ynghlwm wrth drefnu a chynnal gweithgareddau sy'n mynd y tu hwnt i 'farchnata sylfaenol' drwy gynnig Grantiau Marchnata. Ond lleiafrif o gyhoeddwy'r sy'n manteisio ar y cyfle hwn ar gyfer llyfrau plant, yn rhannol gan fod gofynion ychwanegol yn codi wrth geisio cydweithio â chynulleidfaoedd ifanc. Dylai'r Cyngor gymell rhagor o gyhoeddwy'r, yn arbennig y rhai sy'n ddibrofiad ym maes marchnata llyfrau plant, i geisio am yr arian hwn drwy ddarparu canllawiau yn crynhoi 'Arferion Da' ar y canlynol: sut i ymgysylltu â phlant drwy ysgolion, grwpiau ieuenctid fel yr Urdd a'r Ffermwyr Ifanc ac ati; sut i gyrraedd cynulleidfaoedd amrywiol (o ran cefndir ieithyddol a daearyddol); a sut i gydweithio â sefydliadau lleol a chenedlaethol (llyfrgelloedd, amgueddfeydd, orielau ac ati) a allai gynnig lleoliadau ac iddynt gyswllt ystyrion â thema'r llyfr dan sylw. Dylai pob ymgyrch farchnata hefyd gysylltu ag adnodd digidol y gellid ei rannu ar blatfformau amrywiol i gyrraedd cynulleidfa mor eang ag sy'n bosibl. Fel yn achos agweddau eraill a drafodir yn yr Adroddiad hwn, rhaid meithrin diwylliant sy'n rhoi'r cyfle i blant ddod i

gysylltiad ag amrywiaeth helaethach o lyfrau Cymraeg. Mae ymgyrchoedd marchnata llyfrau newydd yn un cyfrwng y gellid manteisio rhagor arno.

**ARGYMHELLIAD 2: Er mwyn cydlynu ymgyrchoedd marchnata llyfrau newydd yn fwy effeithiol, dylai Cyngor Llyfrau Cymru ddiffinio natur ‘marchnata sylfaenol’ llyfrau plant ac oedolion ifanc a ariennir ganddynt yn fanylach. Hefyd, dylid llunio canllawiau ar gyfer cyhoeddwyr i gyd-fynd â’r Grant Marchnata yn cynnig syniadau a chefnogaeth ynghylch ymgysylltu â chynulleidfaoedd ifanc.**

“Yr argraff gyffredinol sydd gennyf o’r diwydiant llyfrau plant a phobl ifanc yma yng Nghymru yw fod buddsoddiad mawr yn cael ei wneud yn y gwaith o gomisiynu a chyhoeddi arlwy eang o lyfrau yn flynyddol, ond yn anffodus, dyw’r buddsoddiad i farchnata a hyrwyddo’r llyfrau hynny ddim yn cyfateb. Hynny ydi, mae cwtogi ym maes hyrwyddo er mwyn gwarchod y cyhoeddiadau. Yn anffodus, dyw’r llyfrau ar silffoedd ddim yn medru eu gwerthu eu hunain. Mae angen buddsoddi rhagor yn y gwaith hyrwyddo a marchnata.”

*Arolwg Ar-lein (2016–17)*



## GRWPIAU OEDRAN

---

Nid oes yr un dull terfynol o ddsrannu darllenwyr yn grwpiau oedran. Fodd bynnag, mae'r dosraniad yng nghyhoeddiadau a dogfennaeth Cyngor Llyfrau Cymru (sef Gwales (catalog cynhwysfawr o lyfrau o Gymru ar-lein) y Catalog Llyfrau Plant (rhestr flynyddol o gyhoeddiadau cyfredol) a dogfennaeth y Panel Grantiau) yn amrywio ac mae nifer fawr o gofnodion llyfrau plant ar Gwales heb gyfeiriad o gwbl at grŵp oedran.

Awgrymir y dull hwn o ddsrannu ystod oedran darllenwyr. Mae'r dosbarthiad yn seiliedig ar 'Gamau Cynnydd' Adroddiad Donaldson (2015, 52–5), dosbarthiad Llyfrgelloedd Cymru (ar dudalennau gwe 'Who's next...?') ac arferion sefydliadau llyfrau plant mewn gwledydd eraill:

0-4	Blynyddoedd Cynnar (Early years)
5-7	Dechrau Darllen (First Readers)
8-11	Darllenwyr Iau (Younger Readers)
12-14	Darllenwyr Hŷn (Older Readers)
14+	Oedolion Ifanc (Young Adult)

Dylai'r grwpiau oedran hyn gael eu defnyddio er mwyn cynorthwyo plant, rhieni, llyfrwerthwyr, llyfrgellwyr ac athrawon a rhieni i chwilota, canfod ac arddangos y ddarpariaeth sydd ar gael. Roedd nifer o gyfranogwyr yr Arolwg am weld ystod oedran briodol yn cael eu nodi ar ddeunydd marchnata, Gwales, ac mewn siopau llyfrau. Ond ni chafwyd dadl argyhoeddiadol o blaid nodi'r ystod honno yn uniongyrchol ar gloriau'r llyfrau. Er bod teimlad y byddai hynny'n fanteisiol i werthwyr a rhieni yn arbennig, roedd llyfrgellwyr a'r rhai sy'n hyrwyddo llyfrau plant o ddydd i ddydd yn credu'n gryf na fyddai hynny'n llesol i'r darllenwyr eu hunain, gan y gall danseilio eu hyder. Mae anghenion pob darllenydd yn wahanol, a rhaid wrth lyfrwerthwyr, llyfrgellwyr ac athrawon sy'n gallu cynghori pob unigolyn wrth iddynt ddewis llyfr sy'n addas ar eu cyfer. Bydd cysoni'r grwpiau oedran yn un ffordd o hwyluso'r gwaith cynghorol hwnnw.

**ARGYMHELLIAD 3: Dylid cysoni'r cyfeiriadau at oedrannau targed ar draws cyhoeddiadau a dogfennaeth y Cyngor. Hefyd, dylid cynnwys oedran targed ar gofnod pob llyfr ar Gwales a'r wefan llyfrau plant arfaethedig, a'i gwneud yn bosibl i chwilota yn ôl oedran.**

## Y RHAGLEN GYHOEDDI

Ar un wedd, y mae cyfranogwyr yr Arolwg yn gytûn ar yr hyn yr hoffent ei weld yn y Gymraeg i blant a phobl ifanc: cynnwys gafaelgar, wedi ei ysgrifennu'n dda a'i gyflwyno rhwng cloriau atyniadol. Cynhwysion elfennol, ond sy'n gofyn am fuddsoddi sylweddol ac ymdrech gydwbodol os am greu rhagor o lyfrau o'r fath yn y Gymraeg.

Roedd 71% o'r ymatebwyr i'r holiadur Cymraeg yn cytuno bod 'dewis eang o lyfrau deniadol i blant o dan 12 oed'. 42% a gytunai â'r un datganiad ar yr holiadur Saesneg, gyda chanran uwch 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno'. Mae hyn yn awgrym o'r diffyg cyswllt sydd gan nifer o siaradwyr di-Gymraeg â'r farchnad llyfrau Cymraeg a drafodir yn nes ymlaen. Canmolwyd yr amrywiaeth a'r nifer, yn arbennig ar gyfer y plant ieuengaf, a'r gwella diweddar yn safon y dylunio a'r diwyg. Ar y llaw arall, nodwyd bod lle i wella ansawdd cloriau llyfrau o hyd, bod angen cysoni safon cyfieithiadau a chynyddu nifer y llyfrau gwreiddiol. Teimlwyd hefyd fod prinder amrywiaeth o safbwynt *genre* a phersbectif (h.y. bod sefyllfaoedd a bydolwg llyfrau Cymraeg yn rhy debyg i'w gilydd).

Yn fwy penodol, gofynnwyd i'r cyfranogwyr fynegi barn ar nifer y llyfrau plant ar gyfer gwahanol oedrannau:

### **0-4 Blynyddoedd Cynnar**

Teimlai 60% bod 'digon' o lyfrau ar gael i'r grŵp oedran hwn. Credai 13% bod 'gormod', gyda nifer sylweddol o lyfrgellwyr a llyfrwerthwyr yn datgan hynny. Ategwyd hyn gan sylwadau ei bod hi'n anodd rhoi sylw teilwng i gynifer o lyfrau newydd ar silffoedd siopau a bod gormod o lyfrau tebyg yn cystadlu â'i gilydd.

### **5-7 Dechrau Darllen**

Unwaith eto, roedd 62% yn fodlon bod 'digon' o lyfrau ar gael, gyda chanran lai o lawer yn credu bod 'gormod' (2%). Mynegodd sawl rhiant, yn arbennig, eu hanfodlonrwydd â llyfrau 'cynlluniau darllen' ar gyfer yr oedran hwn (nas ariennir gan grantiau Cyngor Llyfrau Cymru) ac roedd hynny'n effeithio'n negyddol ar eu canfyddiad o lyfrau Cymraeg yn gyffredinol. Mae lle i'r Cyngor Llyfrau gydweithio'n agosach ag Adran Addysg Llywodraeth Cymru a'r Consortia Addysg er mwyn sicrhau ansawdd y llyfrau hyn.

### **8-11 Darllenwyr Iau**

Erbyn cyrraedd y grŵp oedran hwn mae'r sefyllfa wedi ei thrawsnewid, gyda 63% yn datgan bod 'dim digon' o lyfrau ar gael. Ategwyd hyn gan sylwadau gan athrawon a rhieni a fynegodd fod darllenwyr yn troi fwyfwy at ddarllen llyfrau Saesneg unwaith iddynt ddatblygu'n ddarllenwyr annibynnol (tua blwyddyn 3 ymlaen). Yn ddiddorol, roedd 75% o'r cyhoeddwyr yn credu bod 'digon' o lyfrau ar gyfer yr oedran hwn. Mae hynny'n adlewyrchu ymddangosiad diweddar nifer o addasiadau o gyfresi deniadol â brandiau cryf ar gyfer yr oedran hwn (e.e. Pump Prysur, Twm Clwyd) a rhai cyfresi gwreiddiol (e.e. Swigod, Na, Nel!). Eto, canfyddiad mwyafrif yr ymatebwyr oedd nad oedd y rhain yn ddigonol i ateb y galw, a mynegodd nifer o ddarllenwyr ifanc rwystredigaeth fod y dewis ar eu cyfer yn gyfyng a bod modd i ddarllenwyr brwd fynd drwy'r cyfan mewn byr o dro. Galwai nifer am gyfresi lle gallai'r darllenydd ddilyn cymeriadau o'r naill lyfr i'r llall. Ffactor arall a effeithiai ar ganfyddiad darllenwyr ifanc

oedd nad oedd nifer sylweddol ohonynt yn dod i gysylltiad â rhychwant eang o ddewis oherwydd cyfyngiadau'r arlwy yn y cartref, ysgol, siop a/neu lyfrgell leol a chan nad oes gan lyfrau Cymraeg le amlwg yn y byd o'u cwmpas (ar y cyfryngau nac ar y we). Gellid creu argraff fwy ffafriol o lawer o'r deunydd sydd ar gael pe bai gwefan fwy hwylus na Gwales ar gael i'w galluogi i chwilota am lyfrau a gwybodaeth ddiddorol ar eu cyfer (gw. Hyrwyddo Llyfrau).

### **12+ Darllenwyr Hŷn**

Credai 75% o ymatebwyr nad oes digon o lyfrau Cymraeg ar gael i bobl ifanc yn eu harddegau. Cafwyd sylwadau i ategu hynny gan gynrychiolwyr o bob sector, gyda disgyblion ysgol ymhlith y mwyaf taer. Hyd yn oed ymhlith y disgyblion uwchradd a ddeuai i gyswllt ag amrywiaeth eang iawn o lyfrau (o ganlyniad i gynllun darllen yr ysgol), roedd teimlad cryf nad oedd digon o gynnwys perthnasol i'w bywydau nhw ar gael ac nad oedd arddull lenyddol nifer o'r llyfrau yn apelgar a hygyrch (gw. Iaith ac Arddull).

Nid yw cyfresi a fu'n boblogaidd unwaith wedi parhau (e.e. Pen Dafad, Mellt) ac mae'r nifer o deitlau newydd ar gyfer y grŵp oedran hwn wedi lleihau yn ddiweddar. Mynegodd nifer o weisg eu dymuniad i greu deunydd ar gyfer y darllenwyr hyn, ond roedd y diffyg cefnogaeth ariannol i gynhyrchu llyfrau yn rhwystr amlwg. Dibynnir yn bennaf ar nawdd Adran Addysg Llywodraeth Cymru sy'n comisiynu ffuglen i arddegwyr o bryd i'w gilydd er mwyn llenwi'r bylchau a wêl eu hymgyngorwyr yn y ddarpariaeth. Canfyddiad yr Arolwg hwn yw bod cyfle i Gyngor Llyfrau Cymru arwain yn y maes hwn, a chael ei adnabod fel y corff sy'n rhoi'r cyfle a'r rhyddid i greu ffuglen gyffrous a heriol ar gyfer yr oeddrannau hyn. Er i rai gwestiynu a oes angen 'ffuglen oedolion ifanc' gan y gall darllenwydd 13 oed droi at nofelau i oedolion, o wrando ar farn pobl ifanc, daw'n amlwg eu bod yn ysu am nofelau Cymraeg sy'n mynd i'r afael â'u profiadau hwy. Galwant am straeon mwy cymhleth a heriol, nid ar themâu 'tywyll' o reidrwydd ond yn llawn egni, hiwmor a dychymyg ac mewn iaith hygyrch. "Mae pobl oed ni'n trio ffeindio ein hunain a deall ein hunain," meddai un cyfranogwr, a galwodd am straeon Cymraeg sy'n adlewyrchu a chydabod hynny. Meddai un arall, "[Hoffwn weld] llyfrau sy'n trin pobl ifanc fel yr hoffent gael eu trin – fel dinasyddion clyfar a chreadigol sy'n datblygu ac ehangu eu byd-olwg bob dydd."

Ymhellach, mae modd tyfu marchnad arbennig i'r llyfrau hyn gan y gallant apelio at ddarllenwyr o bob oed. Soniwyd am botensial trawsygyfeiriol (*crossover*) rhai nofelau yn y gorffennol e.e. *Adref Heb Elin* gan Gareth F Williams (2006) a *Naw Mis* gan Caryl Lewis (2009). Ond ni welwyd eto ymgyrch benodol i greu a chynnal marchnad ar gyfer nofelau Cymraeg i apelio at gynulleidfa ffuglen Oedolion Ifanc sy'n rhan mor sylweddol o'r farchnad lyfrau ryngwladol, ac sy'n aml yn cysylltu llyfrau print a'r cyfryngau digidol (e.e. *Girl Online* gan yr awdures ar-lein, Zoella (2014)).

**ARGYMHELLIAD 4: Dylai'r Cyngor Llyfrau gymell cyhoeddwy i gynhyrchu mwy o lyfrau ar gyfer darllenwyr 8+ a chwtogi ar y cyhoeddiadau ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Dylid cynyddu'r nifer o lyfrau ffuglen gwreiddiol i blant 8–11 a 12+ (a ffurfio cyfresi â brandiau cryfion) a llyfrau ffeithiol ar bynciau cyfredol.**

**ARGYMHELLIAD 5: Dylid sicrhau bod cefndir, sefyllfaoedd a chymeriadau llyfrau plant ac oedolion ifanc yn adlewyrchu ystod ehangach o brofiadau Cymry ifanc heddiw.**

**ARGYMHELLIAD 6: Dylid ystyried ailgyhoeddi llyfrau poblogaidd Cymraeg neu 'glasuron' o'r gorffennol, a'u diweddarau yn rhan o genre neu gyfres benodol (e.e. arswyd, antur, ffantasi) er mwyn creu marchnad ac iddi frand cynhenid cryf sy'n para o un genhedlaeth i'r llall. Mae'r brand Cymreig hwn ar gael i'r plant ieuengaf (e.e. Sali Mali, Rala Rwdins), ond nid i ddarllenwyr annibynnol. Er mwyn sicrhau darllenwyr ar gyfer y llyfrau hyn, bydd rhaid llunio**

**strategaeth addasu priodol ar gyfer pob testun (o safbwynt iaith ac arddull, cynnwys a diwyg). Hefyd, dylid ystyried cynnwys cyfieithiadau o ‘glasuron’ rhyngwladol (e.e. *Pippi Hosan Hir*) nad ydynt bellach ar gael yn y Gymraeg ymhlith yr ailgyhoeddiadau hyn.**

Y sefyllfa gyfredol:

“Bilingual children seem drawn to popular English titles after about age 7. Welsh books are not seen as cool or trendy, something they only do in school.”

“Ar ôl Blwyddyn 2 heb os mae’n well gan blant ddewis llyfrau Saesneg – yn aml achos eu bod nhw’n edrych yn fwy cyffrous.”

“At every parents evening for over 10 years my children have been encouraged by teachers to read more Welsh, but even my total bookworm of a child just could not and cannot find anything of interest to read in Welsh – books on offer are often inaccessible due to over-complex and old fashioned language; or are overly worthy or dark; or are patronising and obviously 'teen' books about footballers or pop stars; or are a translation of a book that they could get hold of and read much more easily in English. The result is that my bookworm child reads the readily available English language books. Translating books into Welsh from other languages is valuable for some 'big titles' (like Harry Potter) – but books are really best appreciated and read in the language they were written in where possible. What we really need are many 'must-read' exciting series of children’s and young-adult books devised and written in accessible Welsh.”

Beth hoffech chi ei weld yn y Gymraeg?

“Nofelau i bobl ifanc; llyfrau ffeithiol i blant 6-10 oed; llyfrau digidol i blant ar gyfer ipads etc.; llyfrau i ferched sydd ddim yn binc, yn trafod ceffylau neu dywysogesau ac sy’n llawn glitter! Mwy o straeon/chwedlau y byd, ond nid wedi’u rhoi mewn trysorfa – rheini’n atyniadol i rieni, ond nid i blant (rhy drwm, anhylaw, a hefyd drud). Mwy o gyfresi i annog plant i fynnu cael galw eto mewn siop lyfrau i brynu cyfrol arall yn y gyfres.”

“Llyfrau cyfoes sy’n cynnig her i’r mwy abl a galluog ond sydd yn parhau i fod o fewn eu byd.”

“Really interesting, exciting stories with accessible language.”

*Arolwg Ar-lein (2016–17)*

## **LLYFRAU DWYIEITHOG**

Er nad oedd llyfrau dwyieithog yn un o feysydd archwilio’r arolwg hwn, cododd y pwnc mewn trafodaethau yn arbennig gyda rhieni, llyfrwerthwyr a hyrwyddwyr llyfrau. Mae nifer y llyfrau dwyieithog wedi cynyddu’n ddiweddar ac yn amrywio o lyfrau gair a llun i lyfrau stori darluniadol. Anelir y cyfan at y blynyddoedd cynnar. Cânt eu defnyddio’n bennaf mewn teuluoedd cymysg o ran iaith ac aelwydydd di-Gymraeg fel ffordd o alluogi rhieni di-Gymraeg i

rannu'r profiad darllen gyda'u plant. Tybir hefyd y cânt eu defnyddio wrth ddysgu'r Gymraeg mewn cyd-destunau ail iaith. Tystiodd yr Arolwg i'r galw amdanynt mewn siopau a chan gyfranogwyr di-Gymraeg neu sy'n dysgu'r iaith. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor Llyfrau ofyn i gyhoeddwyr egluro natur a diben y dwyieithrwydd a ddefnyddir ac i ddangos sut y maent am sicrhau y cyflwynir y ddwy iaith yn gelfydd, heb amharu ar y dyluniad. Yn ogystal, dylid ystyried a fyddai agwedd fwy hyblyg a chreadigol at ddwyieithrwydd yn fwy defnyddiol i rieni di-Gymraeg neu sy'n dysgu'r iaith. (E.e., cymorth i ynganu geiriau ac ymadroddion Cymraeg; prif destun Cymraeg mewn iaith y gall y plentyn 5–7 oed ei ddarllen yn uchel gydag is-destun Saesneg i'r rhiant ei ddarllen yn uchel sy'n cadarnhau ac yn ymestyn dealltwriaeth y plentyn a'r rhiant o'r prif-destun.) Gellid cydweithio â darparwyr llyfrau i ddysgwyr er mwyn canfod ffyrdd newydd a defnyddiol o gyfuno'r ddwy iaith.

**ARGYMHELLIAD 7: Dylid archwilio ymhellach natur a diben llyfrau dwyieithog ac annog defnydd mwy hyblyg a chreadigol o'r ddwy iaith er mwyn rhoi blaenoriaeth i gynorthwyo plant ac oedolion i ddarllen a deall y testun Cymraeg.**

## CYFIEITHU

---

Mae'n debyg nad oes yr un mater ynghylch llyfrau plant wedi ennyn mwy o sylw dros y blynyddoedd diwethaf na chyfieithu. O ystyried sefyllfa sosioieithyddol yr iaith Gymraeg, nid yw hynny'n syndod. Mae'r dadleuon o blaid ac yn erbyn cyhoeddi cyfieithiadau yn chwyrn a phegynol, ac yn adlewyrchu'r berthynas gymhleth, anghyfartal rhwng iaith leiafrifol ac iaith ddominyddol. Ar y naill law, mae'r iaith fwyafrifol yn atyniadol ac yn cynnig mynediad i ddiwylliant byd-eang. Ar y llaw arall, mae'r reddf i ymwrthod â'r iaith honno yn gryf ymhlith y sawl sydd am sefydlu a gwarchod arwahanrwydd diwylliannol. Ymhellach, mae canfyddiad cryf fod cyfieithiadau yn cyfyngu ar yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi llyfrau gwreiddiol ac felly'n fygythiad i'r diwydiant cynhenid.

Un o feysydd craidd yr Arolwg hwn oedd archwilio'r dadleuon hyn, eu tarddiad a'u hoblygiadau fel y gall Cyngor Llyfrau Cymru ddiffinio ei safbwynt ynghylch cyfieithu llyfrau plant ac ymgorffori pwyntiau gweithredu priodol.

Bu cyfieithu yn rhan annatod o'r diwydiant cyhoeddi Cymraeg i blant erioed, a hynny yn unol â phatrwm datblygiad diwylliannau llythrennog ledled y byd. Defnyddiwyd cyfieithu i ateb gofynion penodol ac amrywiol: i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth, i gael gafael ar ddeunydd ar frys, i osod patrwm i awduron cynhenid ei efelychu, i ddod â'r gorau o lenyddiaeth y byd i'r Gymraeg, i ehangu bydolg y darllenydd, ac i gyflwyno syniadau a phrofiadau newydd. Bellach, mewn byd amlgyfrwng, amlieithog, mae cyfieithu yn bwysicach nag erioed. Mae'n weithgarwch sy'n meithrin perthynas a chyd-ddealltwriaeth rhwng diwylliannau'r byd. Eithriad, mewn gwirionedd, yw'r diwydiant cyhoeddi Saesneg, sy'n cyfieithu cyn lleied â 3% o lyfrau plant o ieithoedd eraill. Mae gweddill y byd yn cyfieithu fel mater o raid.

Nid dadl yn erbyn 'cyfieithu' fel y cyfryw yw'r dadleuon cyffredin a wyntyllir ynghylch llyfrau Cymraeg i blant a dylid amddiffyn ar bob cyfrif yr angen i edrych y tu hwnt i ffiniau'r Gymraeg am ysbrydoliaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr o bob sector yn cefnogi cyfieithu:

68% yn cytuno'n gryf/cytuno i raddau â'r datganiad 'Mae'n bwysig addasu amrywiaeth o lyfrau poblogaidd o'r Saesneg'.

76% yn cytuno'n gryf/cytuno i raddau â'r datganiad 'Mae addasiadau'n denu darllenydd'.

O'r sylwadau rhydd a gafwyd ynghylch cyfieithu, roedd 64% yn datgan cefnogaeth, a 30% yn mynegi gwrthwynebiad. Cyfeiriai ymatebwyr at fanteision cyfieithu, megis denu darllenydd na fyddai fel arall yn darllen Cymraeg, safon ac ansawdd y diwyg a'r dylunio, a'r manteision marchnata sydd i frandiau adnabyddus. Ategir hynny gan y ffigurau gwerthiant.

**Gwerthiant blynyddol ar gyfartaledd rhwng 2008 a 2014:**

Addasiadau	64,358
Llyfrau gwreiddiol	22,854

**Nifer y llyfrau a gyhoeddir yn flynyddol ar gyfartaledd rhwng 2008 a 2014:**

Addasiadau	68
Llyfrau gwreiddiol	29

Yr anfantais bennaf a nodai'r gwrthwynebwyr oedd effaith negyddol y pwyslais diweddar ar gyfieithu ar allu'r diwydiant llyfrau i fagu ei awduron ei hun. Lleiafrif sy'n teimlo mai gwastraff amser llwyr yw cyfieithu, ond rhaid cydnabod bod nifer sylweddol o ymatebion cefnogol i gyfieithiadau hefyd yn mynegi pryderon am eu heffaith ar y farchnad. O'r 64% oedd o blaid cyfieithu, roedd 45% o'r farn bod angen cydbwysedd gwell rhwng cyfieithiadau a llyfrau gwreiddiol. Felly, mae'r gefnogaeth i gyfieithu llyfrau plant wedi ei hamodi gan awydd cryf i weld mwy o fuddsoddi mewn cynhyrchu a hyrwyddo llyfrau gwreiddiol. Ategir hynny gan y ffaith i 88% o ymatebwyr nodi eu bod yn cytuno'n gryf/cytuno i raddau â'r datganiad 'Mae angen cynhyrchu mwy o lyfrau gwreiddiol nag addasiadau'. Y farn felly yw bod angen addasiadau, ond na ddylent fod yn fwy niferus na llyfrau gwreiddiol.

Mae'r ymateb hwn yn amlygu cefnogaeth i'r egwyddor sylfaenol bod angen marchnad lyfrau Gymraeg ac iddi ei chymeriad a'i hunaniaeth ei hun. Ond y mae hefyd yn ymateb i'r profiad o weld cynifer o gyfieithiadau ar y silff lyfrau dros y blynyddoedd diwethaf. Ers 2008 mae Cyngor Llyfrau Cymru yn ariannu 97 llyfr y flwyddyn ar gyfartaledd, gyda chyfartaledd o 70% o'r rheini bob blwyddyn yn gyfieithiadau. Diau mai hynny sydd wrth wraidd cymaint o'r trafod diweddar ar gyfieithu a'r honiadau fod 'gormod' o lyfrau plant yn gyfieithiadau (e.e. *Dan yr Wyneb*, BBC Radio Cymru, 16.6.2014).

Mae'r galw yn glir am newid y cydbwysedd i ffafrio cyhoeddiadau gwreiddiol, a daw'r alwad honno gan ymatebwyr di-Gymraeg hefyd. Roedd mwyafrif ymatebwyr yr holiadur Saesneg hefyd o'r farn bod angen cyfieithu deunydd poblogaidd o'r Saesneg, ond bod angen cynhyrchu mwy o lyfrau gwreiddiol nag addasiadau. Yn ogystal, mewn cyfweiliadau unigol, roedd mwyafrif y rhieni yn cyfaddef eu bod yn dewis prynu cyfieithiadau ar gyfer eu plant gan eu bod yn ymddiried yn y stori a'r brand, ac nad oedd ganddynt wybodaeth ddigonol am lyfrau Cymraeg i fentro eu prynu. Nododd pob un y byddent yn fodlon prynu llyfrau gwreiddiol Cymraeg o dderbyn argymhellion penodol ar gyfer oedran eu plant.

Mae ymatebion y darllenwyr ifanc hefyd yn gefnogol i gyfieithiadau, ar yr amod bod yna ddewis helaethach o lyfrau gwreiddiol na chyfieithiadau ar gael. Ond mae eu sylwadau hefyd yn amlygu nad nifer y cyfieithiadau yn unig all beri anfodlonrwydd. O gymharu ymatebion o wahanol ardaloedd o Gymru a chan ddarllenwyr o gefndiroedd ieithyddol amrywiol, daw'n amlwg na ellir cymryd yn ganiataol y bydd cyfieithiadau ar gyfer darllenwyr annibynnol yn cael eu

croesawu na'u mwynhau gan bawb (roedd yr ymatebwyr rhwng 10 a 14 oed). Wrth ymateb i'r cwestiwn 'Ydych chi'n hoffi darllen llyfrau sydd hefyd ar gael yn Saesneg?', 'Nac ydw' oedd barn 54% o ymatebwyr i'r holiadur ar-lein. Ond wrth drafod â darllenwyr mewn ysgolion unigol, 'Ydw' neu 'Ydw, weithiau' oedd ymateb tri chwarter y darllenwyr. Daeth yn amlwg fod dylanwad y ddadl gyhoeddus ynghylch cyfieithiadau yn effeithio ar ganfyddiad rhai darllenwyr, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, a'u bod yn fwy ymwybodol o'r cyd-destun diwylliannol a gwleidyddol. Ond ar y cyfan, roedd y mwyafrif yn seilio eu barn ar brofiadau darllen personol. Gellir crynhoi ymateb y darllenwyr ifanc fel a ganlyn:

- Mae nifer sylweddol o ddarllenwyr yn croesawu cyfieithiadau gan eu bod yn mwynhau ail-fyw'r un stori ar ffurf newydd (yn debyg i wyllo ffilm ar ôl darllen llyfr), yn arbennig yn y grŵp oedran 8–11.
- I'r gwrthwyneb, mae tua'r un nifer o ddarllenwyr nad ydynt yn gweld pwrpas darllen yr un stori eto mewn cyfieithiad, ac mae hyn yn fwy gwir am oedrannau hŷn.
- Mae perthynas gadarnhaol gan ddarllenwyr â chyfieithiadau a ddarllenir ganddynt yn y Gymraeg gyntaf lle nad oes elfen o gymharu â'r testun Saesneg gwreiddiol e.e. Smot, Tudur Budr.
- Mae nifer o ddarllenwyr llai hyderus yn y Gymraeg yn gweld darllen cyfieithiad o lyfr cyfarwydd fel ffordd dda o wella eu sgiliau ieithyddol (mae hyn hefyd yn wir am ddarllenwyr llai hyderus eu Saesneg).
- Mae gan ddarllenwyr ddisgwyliadau uchel y bydd cyfieithiadau cystal â'r testun gwreiddiol. Cânt eu digalonni gan gyfieithiadau sydd yn rhy gymhleth eu hiaith neu sy'n colli hwyl ac asbri'r testun gwreiddiol.

### **Cyd-destun Ewropeaidd: Gwlad y Basg ac Iwerddon**

Mae arferion cyhoeddi i blant mewn ieithoedd lleiafrifol eraill yn amrywiol. Mae gan Wlad y Basg agwedd eangfrydig at gyfieithu. Mae'r penderfyniad i gynnig nawdd cyhoeddus i gyfrol yn dibynnu ar ragoriaethau'r gyfrol dan sylw, nid a yw'n llyfr gwreiddiol ai peidio. Yn 2015, roedd 79% o lyfrau plant yn yr iaith Fasgeg yn gyfieithiadau a chyd-gyhoeddiadau ag ieithoedd Iberaidd eraill. Ond sylwer bod cyfieithu yng Ngwlad y Basg yn cynnig mynediad i ddarllenwyr ifanc i lenyddiaeth amlieithog, gan y cyfieithir o'r Sbaeneg, Ffrangeg, Saesneg, Almaeneg ac Eidaleg (ynghyd â rhai ieithoedd llai). Hefyd, er bod cyfieithiadau yn fwy niferus, llyfrau gwreiddiol sydd â'r statws uchaf, a hwy sy'n cael eu hyrwyddo orau o fewn y gyfundrefn addysg (Zubillga, 2017, t.4). Mae'r llyfrau a gyfieithir i'r Gymraeg, fodd bynnag, yn gwbl ddibynnol ar un iaith ffynhonnell, sef y Saesneg. Un cyhoeddwr Cymraeg yn unig sy'n cyfieithu deunydd o ieithoedd eraill. Awgryma canfyddiadau'r Arolwg hwn mai'r ddibyniaeth hon sy'n arwain at y canfyddiad fod cyfieithu yn niweidiol i'r diwydiant llyfrau Cymraeg. Fe ymddengys, i rai, yn adlewyrchiad o ddiwylliant y gall ein darllenwyr ifanc eisoes gael mynediad ato trwy'r Saesneg.

Ar y llaw arall, newydd ddechrau ariannu cyfieithiadau o'r Saesneg y mae cyrff cyhoeddus yn Iwerddon – cyn 2015, dim ond cyfrolau gwreiddiol, ac ambell gyfieithiad o iaith ac eithrio'r Saesneg, a ariennid. Ond er y newid polisi, cyfyngir y nifer o gyfieithiadau y gall cyhoeddwr eu cynnig ar eu rhaglen gyhoeddi i 10%. Mae ymateb da ar y cyfan wedi bod i gyfieithu nofelau poblogaidd (megis Dyddiadur Dripsynd a Henri



Helynt) a gwerthiant uchel – ond mae galwadau cryfion i edrych eto ar y polisi hwn o ganlyniad i bryderon bod nifer o'r cyfieithiadau yn rhy anodd i ddarllenwyr (yn arbennig rhai y mae'r Wyddeleg yn ail iaith iddynt) ac yn tanseilio llyfrau gwreiddiol. Tystiodd cyfranogwyr yr Arolwg o lwerddon fod y cyfieithiadau yn apelgar ac yn cael eu prynu gan rieni nad ydynt yn medru'r Wyddeleg, ond bod y profiad darllen yn un siomedig i nifer o ddarllenwyr nad ydynt yn rhugl yn yr iaith.

Er bod i lyfrau plant wedi eu cyfieithu eu lle a'u manteision, a bod cefnogaeth gyffredinol iddynt, dengys canfyddiadau'r Arolwg hwn fod angen cydnabod a mynd i'r afael â'r ddau brif ffactor hyn:

1. Ansawdd cyfieithiadau a'u ffynonellau

**ARGYMHELLIAD 8: Dylai cyfieithu llyfrau plant ac oedolion ifanc i'r Gymraeg gael ei gydnabod yn grefft arbenigol, a dylid blaenoriaethu cynlluniau cyfieithu a fydd yn darparu profiad darllen cyfoethog i'r darllenydd Cymraeg. Yn sgil hynny, dylid cefnogi cynlluniau cyfieithu sy'n ymestyn a chyfoethogi'r ddarpariaeth sydd ar gael yn y Gymraeg neu'n cynnig profiad darllen amgen yn y Gymraeg (e.e. drwy gyfieithu llyfr ar gyfer grwpiau oedran a fydd yn debygol o'i ddarllen am y tro cyntaf yn Gymraeg, drwy gyfieithu llyfr nad yw mor adnabyddus i'r darllenwyr yn y Saesneg, neu addasu a diweddarau llyfrau a fu'n boblogaidd yn y Gymraeg yn y gorffennol yn null Enid Blyton a'r *Pump Prysur*).**

**ARGYMHELLIAD 9: Rhaid sicrhau bod natur y cyfieithiad yn addas at ddibenion y llyfr dan sylw. Os apelio at ddarllenwyr llai hyderus eu Cymraeg yw bwriad y llyfr, yna rhaid i'r cynnwys ieithyddol adlewyrchu hynny. Yn yr un modd, os ymestyn darllenwyr rhugl yw'r bwriad, yna dylid canfod teitlau llai cyfarwydd (o'r Saesneg ac ieithoedd eraill) er mwyn rhoi profiad darllen cwbl newydd a heriol iddynt. Dylid cydweithio â Chyfnewidfa Lên Cymru er mwyn adnabod cyfleon i addasu gweithiau rhyngwladol.**

2. Cydbwysedd llyfrau gwreiddiol a chyfieithiadau

**ARGYMHELLIAD 10: Ni ddylai Cyngor Llyfrau Cymru ariannu mwy o gyfieithiadau na llyfrau gwreiddiol bob blwyddyn.**

“Credaf yn gryf bod angen cydbwysedd o lyfrau. Roedd Dyddiadur Dripsyn wedi trawsnewid awydd y disgyblion yn fy nosbarth i ddarllen llyfrau yn y Gymraeg.”

“Gellir darllen nofelau Saesneg yn y gwreiddiol. Gwastraff amser ac egni yn fy marn i yw eu haddasu. Mae nifer o’r addaswyr yn bobl a allai gael eu comisiynu i ysgrifennu llyfrau gwreiddiol, ynghyd ag awduron eraill.”

“Maen nhw’n denu plant na fyddai’n darllen yn Gymraeg fel rheol. Beth sy’n anffodus yw nad oes cam wedyn sy’n arwain plant at lyfrau gwreiddiol tebyg e.e. “Rwyt ti’n hoffi *Henri Helynt*, beth am y rhai gwreiddiol yma?”.”

“Yn amlwg mae’n well fod person ifanc yn darllen cyfieithiad Cymraeg o un o lyfrau David Walliams na peidio darllen yn y Gymraeg o gwbl ond mae’n dorcalonnu fod arian yn mynd tuag at gyfieithu llyfrau Saesneg yn lle cynhyrchu llyfrau gwreiddiol yn y Gymraeg a datblygu awduron ifanc newydd a chyffrous.”

“Mae addasiadau o’r Saesneg yn amlwg yn mynd i werthu mwy, oherwydd yr enwau cyfarwydd, Dahl Walliams ag ati OND yn fy marn i maen nhw’n fwy tebygol o arwain plant sy’n darllen yn y Gymraeg yn barod i lyfrau Saesneg gan yr awduron yna – mae’r gwreiddiol wastad yn mynd i fod yn well nag addasiad. Da cael nhw yna fel opsiwn ond ni ddylid rhoi cymaint o nawdd ariannol iddynt â llyfrau gwreiddiol. Mae angen i blant gael llyfrau sydd ond yn y Gymraeg – cyfresi poblogaidd fel Na Nel, Alun Arth, Rwdlan. Mae angen pethau tebyg i blant hŷn, sydd yn syml ond yn dda ac yn cadw plant yn y byd darllen Cymraeg. Oed 9-11 mae plant sy’n ddwyieithog ac yn hoff o ddarllen yn rhy aml yn stopio darllen yn y Gymraeg – angen CYFRESI GWREIDDIOL sy’n gallu cael eu darllen un ar ôl y llall.”

“Mae safon yr addasiad yn bwysig a rhaid denu’r math iawn o awdur ar gyfer hyn, ac weithiau nid yw’r dewis yn gweddu. Mae yna bryderon am safon y golygu hefyd. Mae fy mhlant wedi sylwi droeon ar typos a gwallau yn enwau cymeriadau a llefydd mewn sawl addasiad amlwg ... Yr argraff yw nad oes digon o fuddsoddiad yn y maes hwn, a’i fod yn cael ei weld yn ddull "rhad a rhwydd". Mae camgymeriadau yn gallu gwneud i blant gefnu ar addasiadau a throi at y Saesneg gwreiddiol.”

“Mae saernio addasiad da yn grefft y dylid ei chydabod. Rydw i wedi syrffedu ar y feirniadaeth annheg fod addasiadau yn eilradd i lyfrau gwreiddiol. Dylid buddsoddi mewn addasiadau da, safonol.”

*Arolwg Ar-lein (2016–17)*

## DATBLYGU AWDURON

---

Rhaid cydnabod bod angen buddsoddi sylweddol a chynllun tymor hir er mwyn gwneud y diwydiant llyfrau Cymraeg i blant ac oedolion ifanc yn llai dibynnol ar gyfieithiadau. Bydd angen cydweithio â'r cyhoeddwyr a phartneriaid allanol er mwyn darparu'r cyfleoedd i ddatblygu syniadau a thalent awduron. Ar y cyd â Llenyddiaeth Cymru, yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a'r cyfryngau (ymhlith eraill), dylid datblygu gweithgareddau i sbarduno syniadau (e.e. gweithdai creadigol, cystadlaethau ysgrifennu) sy'n trosi'n brosiectau cyhoeddi penodol. Rhaid adnabod rhanddeiliaid ac unigolion allweddol sydd â'r creadigrwydd a'r profiad priodol o'r farchnad llyfrau plant Cymraeg, Saesneg a rhyngwladol i ysgogi awduron a'u mentora.

**ARGYMHELLAID 11: Dylai Cyngor Llyfrau Cymru gydweithio â phartneriaid allanol (gan gynnwys y cyhoeddwyr, Llenyddiaeth Cymru, S4C, BBC Cymru, yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol) i ddatblygu gweithgareddau i sbarduno syniadau ac i fentora awduron.**

"[Hoffwn weld] cynllun datblygu a mentora i awduron plant – dwi'n falch fod awduron ifanc yn cael eu hannog i ysgrifennu cyfrolau i blant a phobl ifanc. Ond mae angen meithrin awduron a chynnig cyfleon hefyd i awduron o bob oed, cefndir ac o bob rhan o Gymru."

"Mae angen buddsoddi'n deilwng yn ein hawduron i'w gwneud hi'n werth chweil yn ariannol iddyn nhw gynhyrchu teitlau gwreiddiol a thrwy hynny sicrhau statws i'r maes."

"Yn wyneb toriadau difrifol mae'n bwysig cefnogi cyhoeddi llyfrau plant a phobl ifanc gwreiddiol Cymraeg. Ond mae angen codi'r safon. Dylid mentro i gyhoeddi awduron newydd cyffrous a chlustnodi mwy o arian i gyhoeddi llyfrau pobl ifanc."

*Arolwg Ar-lein (2016–17)*

## IAITH AC ARDDULL

---

Wrth holi cyfranogwyr ynghylch eu barn gyffredinol ar lyfrau Cymraeg i blant a phobl ifanc, mae nifer y sylwadau ar iaith ac arddull y llyfrau a gafwyd yn drawiadol. Er na ofynnwyd cwestiwn penodol ar y pwnc hwn, iaith ('anodd', 'gymhleth' neu 'dafodieithol') oedd y ffactor a enwyd gan y mwyafrif o gyfranogwyr fel y prif rwystr i ddarllenwyr ifanc rhag darllen llyfrau Cymraeg.

Credai 50% o'r athrawon a ymatebodd i'r holiadur mai cynnwys ieithyddol llyfrau Cymraeg oedd un o'r prif rwystrau i ddarllenwyr, gydag un o bob dau o'r rheini'n teimlo mai tafodiaith y llyfrau oedd y rhwystr pennaf. Teimlai nifer o athrawon y de fod gormod o lyfrau'n rhy ogleddol eu tafodiaith a bod nifer o'u disgyblion yn gweld yr elfen dafodieithol yn rhy anodd.

Nid yw dadleuon ynghylch tafodiaith mewn llyfrau plant yn beth newydd. Bu'n achos ffræ gyhoeddus rhwng Kate Roberts a lorwerth Peate ar dudalennau cylchgrawn *Y Llenor* yn 1931, er enghraifft. Roedd Kate Roberts o'r farn na ellid creu deialog ystyrion, naturiol heb dafodiaith. Ond 'ysgrifennu'n llac ac anghywir' oedd defnyddio orgraff dafodieithol i lorwerth Peate, a gochelodd rhag ei harfer er mwyn gwneud y gwaith yn fwy dealladwy i ddarllenwyr ardaloedd eraill o Gymru. Ni fyddai unrhyw un sy'n gyfarwydd â *Sioned* (1906) nag *Un Nos Ola Leuad* (1961) yn dadlau nad oes modd creu mynegiant grymus a chyfoethog drwy arfer arddull dafodieithol, a thra bo nifer yn cwyno am y defnydd o dafodiaith mewn llyfrau plant, y mae eraill yn frwd o'i blaid. Ymhellach, er i nifer o ddarllenwyr oedran uwchradd gwyno am dafodiaith, daeth yn amlwg drwy drafod nad tafodiaith *per se* yw'r brif broblem. Yn hytrach, teimlai'r cyfranogwyr nad oedd digon o nofelau ar eu cyfer yn llwyddo i greu iaith lafar gredadwy i'w cymeriadau. Honnodd rhai fod gormod o awduron yn ceisio dynwared lleisiau pobl ifanc heb adnabod eu hieithwedd yn iawn, gan ddefnyddio geirfa dafodieithol neu gymysgiaith/'slang' er mwyn ymddangos yn gyfoes. Ond gallai'r darllenwyr synhwyro hynny'n syth, "Nid fel 'na da ni'n siarad!" meddai un. Yn hytrach na gweld tafodiaith fel ffordd o wneud llyfr yn fwy hygyrch a deniadol, rhaid cydnabod bod darllen testun sy'n *gyfan gwbl* mewn tafodiaith, ac yn ceisio cynrychioli seiniau'r dafodiaith honno yn yr orgraff, yn gofyn am sgiliau ieithyddol estynedig ar ran y darllenydd. Dylid cynghori darllenwyr/athrawon/rhieni fod nofelau o'r fath ar gyfer darllenwyr 'mwy abl a thalentog' (oni bai eu bod yn gyfarwydd â'r dafodiaith honno).

Yn ogystal â thafodiaith, cafwyd nifer o sylwadau a honnai fod iaith ac arddull nifer o lyfrau yn rhy 'anodd' a/neu 'lennyddol'. Cyfeiriodd rhai o'r plant at 'eiriau anodd eu deall', 'iaith rhy gymhleth' ac 'arddull rhy ddisgrifiadol' llyfrau Cymraeg, a bod darllen llyfrau Cymraeg yn 'anoddach' na darllen llyfrau Saesneg. Cafwyd sylwadau craff gan ddarllenwyr brwd mewn grwpiau ffocws fod ôl ymdrech ar arddull llawer o lyfrau Cymraeg, a galwent am ysgrifennu mwy uniongyrchol gyda rhagor o hiwmor. O ganlyniad, er bod nifer o'r disgyblion yn gweld darllen yn rhywbeth i'w wneud er mwyn ymlacio (yn arbennig cyn cysgu) a dianc i fyd arall

(boed yn un realistig neu ledrithiol), nid oedd y mwyafrif yn *dewis* darllen llyfr Cymraeg er mwyn ymlacio yn eu hamser sbâr. Roeddynt yn cysylltu darllen Cymraeg â gwaith ysgol yn bennaf. Mae hyn yn cael ei ategu gan ymatebion athrawon i'r holiadur. Nododd 62% mai lleiafrif o'u disgyblion sy'n darllen llyfrau Cymraeg yn annibynnol (h.y. y tu hwnt i'r hyn a osodir gan yr athro/athrawes).

Mae yna enghreifftiau o ysgrifennu grymus, eglur, cyfoethog i'w cael yn y Gymraeg, a chafwyd canmoliaeth i nifer o'n hawduron cyfoes gan blant ac oedolion a gyfrannodd i'r Arolwg. Mae ôl paratoi a golygu gofalus ar nifer sylweddol o gyfrolau, ond caiff hyder darllenwyr ei danseilio os nad yw'r ieithwedd yn ddigon hygyrch. Nid yw hynny'n golygu bod dymuniad i weld symleiddio'r iaith nes ei gwneud yn ddi-liw a diegni. I'r gwrthwyneb, mae'n golygu bod angen craffu'n fwy manwl ar y technegau y mae'r awduron/golygyddion yn bwriadu eu defnyddio er mwyn sicrhau y cynhyrchir llyfrau ar amrediad o lefelau ieithyddol gwahanol. O fod yn fwy eglur ynghylch cynnwys ieithyddol y llyfrau, gellir bod yn fwy eglur ynghylch pwy yw darllenwyr targed y llyfrau a gynhyrchir. Dylai Cyngor Llyfrau Cymru: arwain y drafodaeth ar iaith ac arddull llyfrau Cymraeg i blant (gan elwa o'r profiad o weithio ar ymgyrch 'Stori Sydyn' i annog oedolion i ddarllen mwy), sicrhau bod pob llyfr a ariennir ganddynt wedi ei ysgrifennu neu ei gyfieithu mewn arddull briodol, a sicrhau bod amrediad o lyfrau o'r elfennol i'r ymestynnol yn cael eu cynhyrchu.

**ARGYMHELLIAD 12: Dylai Cyngor Llyfrau Cymru arwain trafodaeth ar iaith ac arddull llyfrau Cymraeg ar gyfer ystod o oedrannau a gallu a sicrhau bod ei raglen gyhoeddi yn cynnwys llyfrau ar lefelau ieithyddol priodol, eglur ac amrywiol, er mwyn apelio at ddarllenwyr a chanddynt anghenion gwahanol.**

“Mae yna ormod o dafodiaith ogleddol sy'n dieithrio nifer o blant y de, yn enwedig rhai o gefndiroedd di-Gymraeg. Angen symleiddio'r iaith.”

“Mae tafodiaith hefyd yn broblem gyda llyfrau Cymraeg ac achos bod cyfieithiadau yn aml yn fwy anodd na'r gwreiddiol mae'r plant yn colli'r hyder a'r hwyl!”

“Un rhwystr amlwg yw iaith rhy gymhleth i'r gynulleidfa darged (barn fy merch 10 oed sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf).”

*Arolwg Ar-lein (2016–17)*

# HYRWYDDO LLYFRAU

---

Er mwyn datblygu rhagor ar y farchnad ar gyfer llyfrau Cymraeg i blant ac oedolion ifanc, cyrraedd darllenwyr a chwsmeriaid newydd a sicrhau bod Cyngor Llyfrau Cymru yn cyflawni amcanion eu Strategaeth Tlodi Plant (2016) i '[d]osbarthu gwybodaeth am ddeunydd darllen ymysg cynulleidfaoedd amrywiol' a '[ch]yfrannu at gynhwysiad teuluol a fydd yn sicrhau'r gefnogaeth angenrheidiol i blant a phobl ifanc' rhaid ymgymryd ag ymgyrch hyrwyddo gydlynus sy'n rhychwantu'r cartref, yr ysgol a'r parth cyhoeddus:

## 1. Y CARTREF

Mae awyrgylch y cartref yn hanfodol er mwyn meithrin agweddau cadarnhaol a chariad at ddarllen ac mae gan rieni rôl bwysig wrth arwain, argymell a chefnogi eu plant i ddarllen er pleser. Dengys yr Arolwg hwn fod y rhan fwyaf o'r rhieni a ymatebodd yn teimlo bod angen rhoi mwy o sylw i lyfrau plant. Achlysurol ac ysbeidiol yw'r wybodaeth sydd ar gael i rieni, gyda rhai yn derbyn taflenni 'Gwledd y Nadolig/yr Haf' drwy'r ysgol neu'r papur bro, ac eraill yn ymweld â siop lyfrau Cymraeg a/neu'r llyfrgell gyda'u plant. Mae'r cyswllt â llyfrau Cymraeg yn dibynnu felly ar eich ardal ddaearyddol (h.y. a oes siop lyfrau Gymraeg ar gael yn lleol) a'ch rhwydweithiau cymdeithasol. Ond mae gwybodaeth bellach am y llyfrau hynny'n brin drwyddi draw, gan mai ychydig o drafod cynnwys llyfrau ac argymhellion sydd. Mae nifer fawr o rieni, Cymraeg a Saesneg eu hiaith, felly yn ei chael hi'n anodd gwybod pa lyfrau i'w prynu i'w plant. Mae hyn yn arwain nifer i brynu cyfieithiadau'n bennaf.

Ymhellach, mae nifer o rieni di-Gymraeg yn teimlo nad oes ganddynt yr wybodaeth angenrheidiol am lenyddiaeth Gymraeg i gefnogi eu plant wrth ddarllen gartref. Galwodd nifer ohonynt, yn naturiol efallai, am fwy o lyfrau dwyieithog i'w cynorthwyo, er mwyn iddynt allu trafod y cymeriadau a'r themâu gyda'u plant. Ond teimlir mai gwybodaeth ddwyieithog am y llyfrau, yn hytrach na llyfrau dwyieithog, sydd fwyaf addas ar gyfer rhieni i blant sy'n darllen yn annibynnol.

Dengys ymchwil yn seiliedig ar brofion darllen Cymraeg nad yw plant o aelwydydd cymysg o ran iaith a di-Gymraeg yn darllen mor gywir nac yn deall cymaint ar y testun â phlant o aelwydydd Cymraeg yn 11 oed. Un o'r rhesymau am hynny yw'r diffyg cyswllt â'r iaith ysgrifenedig y tu allan i'r dosbarth a chanfyddiadau negyddol ynghylch apêl llyfrau Cymraeg: 'Children who habitually read English books instead of Welsh outside school limit their abilities to enhance their knowledge of words and limit their experiences of decoding and transforming letters into sounds in Welsh' (Rhys a Thomas, 2013, t.649). Mae hynny'n wir am bob plentyn, ond yn arbennig yn achos plant nad oes ganddynt fawr o gyswllt â'r iaith lafar y tu allan i'r dosbarth. 'Increasing engagement with Welsh literature outside school would benefit their Welsh literacy in the long term' (ibid.). Mae'n hanfodol nad yw gwybodaeth am lyfrau'n cael ei chyfyngu i un grŵp ieithyddol yn unig felly, a bod gan bob cartref fynediad at wybodaeth a fydd o gymorth er

mwyn cynyddu cyswllt eu plant â'r iaith Gymraeg. Gellid cynnwys 'nodyn i rieni/note to parents' ar glawr cefn y llyfrau i'w cyfeirio at wefan yn cynnwys awgrymiadau e.e. '10 peth y gallwch chi eu gofyn i'ch plentyn am y llyfr hwn/10 things you could ask your child about this book', ac argymhellion penodol am lyfrau eraill i'w darllen.

**ARGYMHELLIAD 13: Dylid mynd ati'n benodol i ymgysylltu â rhieni er mwyn pwysleisio pwysigrwydd darllen yn y cartref a'u cynorthwyo i fod yn rhan o brofiad darllen eu plant drwy gydlynu adnoddau ar-lein dwyieithog, bywiog a deniadol i gyd-fynd â chyhoeddiadau gwreiddiol a chydweithio ag ysgolion er mwyn rhannu gwybodaeth am lyfrau.**

## 2. Y LLYFRGELL

Er mwyn cefnogi darllen yn y cartref, mae llyfrgelloedd yn sefydliadau cwbl hanfodol. Mae llwyddiant 'Sialens Ddarllen yr Haf', menter ar y cyd rhwng yr Asiantaeth Ddarllen, Llywodraeth Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru a Llyfrgelloedd Cymru yn dangos bod llyfrgelloedd yn llefydd sy'n ysbrydoli plant i fwynhau darllen. Hefyd, mae adnodd ar-lein 'Who's Next...?' yn arwain darllenwyr ifanc o'r naill lyfr i'r llall <https://llyfrgelloedd.cymru/whos-next/>, ac mae cyfle i'r Cyngor gefnogi cynnwys Cymraeg yr adnodd hwnnw. Ond dyma sector sydd wedi dioddef yn enbyd yn sgil toriadau i arian cyhoeddus dros y blynyddoedd diwethaf. Er bod gwasanaethau plant yn greiddiol i ddarpariaeth pob awdurdod lleol, mae nifer y Llyfrgellwyr Plant wedi crebachu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad, mae'r nifer o unigolion a chanddynt arbenigedd ym maes llyfrau Cymraeg i blant ac oedolion ifanc wedi lleihau, ac mae'r gweithgareddau atodol gan llyfrgelloedd i hyrwyddo darllen (yn arbennig ymysg darllenwyr oedran ysgol) wedi prinhau. Dylai'r Cyngor gydweithio i amddiffyn buddiannau llyfrgelloedd Cymru yn wyneb unrhyw doriadau pellach.

**ARGYMHELLIAD 14: Dylai Cyngor Llyfrau Cymru gydweithio ymhellach â Llyfrgelloedd Cymru er mwyn cynnig llwybrau clir i ddarllenwyr o'r naill lyfr i'r llall.**

## 3. YR YSGOL

Mae Cyngor Llyfrau Cymru eisoes wedi adnabod 'yr angen i godi ymwybyddiaeth am lyfrau plant ymysg athrawon ... a phwysigrwydd darllen hamdden i gefnogi gofynion y Fframwaith Llythrennedd' (Cynllun Gweithredol 2017–18, t.14). Cytunai 96% o'r athrawon a gyfrannodd i'r Arolwg hwn fod 'meithrin darllen er pleser' yn flaenoriaeth ganddynt, ond roedd 76% yn ei chael hi'n 'anodd canfod digon o amser i feithrin darllen er pleser yn y dosbarth'. Mewn trafodaethau pellach, daw'n amlwg fod gwybodaeth athrawon am lyfrau'n amrywio'n fawr o unigolyn i unigolyn. Mae swyddogion ysgol y Cyngor yn cynnig gwasanaeth hanfodol a gwerthfawr drwy ymweld ag ysgolion cynradd ac uwchradd yn genedlaethol. Ond mae cyfyngiadau i'r hyn y gall 3 unigolyn ei gyflawni. Dylid pwysu ar Lywodraeth Cymru i gynyddu'r

gefnogaeth ariannol i'r cynllun a fydd yn cynyddu'r cyswllt rhwng ysgolion a'r Cyngor, rhoi cydnabyddiaeth i bwrpas a gwerth y gwasanaeth i athrawon, a chynyddu nifer yr ysgolion sy'n manteisio ar y gwasanaeth. Yng nghyd-destun Adroddiad Donaldson a phwysigrwydd darllen er pleser fel un o'r prif ddulliau i ddatblygu sgiliau a hyder yn y Gymraeg a chreu gweithlu dwyieithog i'r dyfodol, mae'n angenrheidiol i gefnogi athrawon mewn dulliau mwy ymarferol drwy ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol iddynt ar gynnwys llyfrau a'u haddasrwydd ar gyfer gwahanol ddibenion y cwricwlwm. Mae cyfrifoldeb ar yr Adran Addysg, Estyn, y Consortia Addysg a chyrrff sy'n darparu hyfforddiant i athrawon i gydweithio â'r Cyngor Llyfrau er mwyn cymell diddordeb athrawon mewn llyfrau o ddechrau eu gyrfa a thrwy gydol eu datblygiad proffesiynol, a sefydlu adnodd i athrawon rannu gwybodaeth, adolygiadau ac argymhellion.

**ARGYMHELLIAD 15: a) Dylai Cyngor Llyfrau Cymru bwysu ar Lywodraeth Cymru i gynyddu'r hyfforddiant a roddir i athrawon (yn rhan o'u hyfforddiant cychwynnol, a'u datblygiad proffesiynol wedyn) am ddarllen er pleser yn y Gymraeg a chreu adnodd a fydd yn caniatáu i athrawon rannu gwybodaeth, adolygiadau ac argymhellion am lyfrau (e.e. ar yr Hwb). b) Dylai'r Cyngor Llyfrau ddarparu cyngor a gwybodaeth i gefnogi'r hyfforddiant hwn gan bwysu am nawdd i ddatblygu mwy ar Wasanaeth Ysgolion y Cyngor.**

#### 4. PRYNU LLYFRAU

Dengys yr Arolwg hwn fod y Siop Lyfrau yn parhau yn fan canolog allweddol i brynu llyfrau Cymraeg a dysgu am yr hyn sydd ar gael. Cafwyd canmoliaeth arbennig i siopau sy'n cynnig cyngor ac argymhellion ar lyfrau, ac sy'n neilltuo gofod priodol i arddangos y llyfrau (gan roi blaenoriaeth i ddangos cloriau yn hytrach na meingefnau), ac sy'n llefydd croesawgar i blant. Drwy ymweld â'r siop lyfrau y câ'r rhan fwyaf o ymatebwyr i'r holiadur wybodaeth am lyfrau Cymraeg newydd i blant ac oedolion ifanc. Canmolwyd hefyd bartneriaethau rhwng siopau ac ysgolion i gynnal stondin lyfrau a threfnu ymweliad gan awdur. Ond, nododd dros hanner y plant/pobl ifanc nad oeddynt 'erioed wedi bod' mewn siop lyfrau Cymraeg, a nododd tua'r un nifer nad oedd 'neb' yn prynu llyfrau Cymraeg iddynt. Oedran uwchradd oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, a chafwyd sylwadau nad oedd siopau'n cael eu gweld fel llefydd a geisiai ddenu'r grŵp oedran hwn.

Mae'r ymatebion hyn yn adlewyrchu'r angen i wneud y farchnad yn haws i brynwyr drwy gynyddu cyswllt plant a'u rhieni â llyfrau Cymraeg. Gan nad yw siopau llyfrau ar gael yn hwylus ym mhob rhan o'r wlad, rhaid defnyddio mwy ar y we a'r cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd cynulleidfaoedd. Roedd ymatebwyr o bob oed am weld rhagor o ddefnydd o Facebook (81%) a Twitter (65%) i hyrwyddo llyfrau: nifer fechan a oedd yn ymwybodol o'r brand @LlyfrDaFabBooks (Adran Llyfrau Plant y Cyngor Llyfrau). Hefyd, rhaid cynyddu'r cyfleon i brynu llyfrau ledled y wlad, cynnig gostyngiadau a chefnogi siopau lleol i gydweithio ag ysgolion a grwpiau eraill i gynnal digwyddiadau i hyrwyddo llyfrau. Nid oedd e-lyfrau yn un o feysydd



ymchwil yr adroddiad hwn, ac ychydig o gyfranogwyr a gododd y pwnc wrth ymateb. Ymddengys mai llyfrau print oedd blaenoriaeth y mwyafrif, ond roedd galw gan gyfranogwyr oedran uwchradd yn benodol i sicrhau bod llyfrau Cymraeg ar gael yn ddigidol hefyd.

**ARGYMHELLIAD 16: Dylid parhau i gefnogi siopau llyfrau, yn arbennig eu hymdrechion i gynyddu eu defnydd o'r we a'r cyfryngau cymdeithasol ac i gynnal gweithgareddau mewn ysgolion ac yn y gymuned. Law yn llaw â hynny, rhaid cynnig ystod ehangach o ffyrdd i weld a phrynu llyfrau er mwyn cyrraedd prynwyr newydd.**

## **5. HYRWYDDO YN GYFFREDINOL**

Mae llwyddiant ymgyrchoedd penodol fel Darllen Dros Gymru a Sialens Ddarllen yr Haf yn dangos bod modd creu cyffro a bwrlwm ynghylch darllen o hyd. Yr her yw cynnal ac ymestyn y cyffro hwnnw ar draws yr oedranau darllen, ym mhob rhan o'r wlad a thrwy gydol y flwyddyn. Er mwyn hwyluso'r gwaith o hyrwyddo llyfrau yn y cartref, llyfrgell, ysgol, siopau ac yn ein diwylliant yn fwy cyffredinol, dylai Cyngor Llyfrau Cyngor ystyried gweithredu ar y canlynol, gan bwysu am gyllid ychwanegol a chydweithio â phartneriaid allanol.

### **ARGYMHELLION 17-22:**

**17: GWEFAN LLYFRAU PLANT.** Gall y wefan fodoli oddi fewn i Gwales, neu ar wahân iddo, ond rhaid i arddull a chywair y rhyngwyneb gysylltu'n uniongyrchol â darllenwyr ifanc, gyda thudalennau neilltuol ar gyfer 'athrawon' a 'rhieni'. Bydd adran ar gyfer Oedolion Ifanc oddi mewn i'r wefan hefyd. Bydd y wefan hon yn cynnwys manylion pob cyhoeddiad ac yn galluogi defnyddwyr i chwilota yn ôl teitl, awdur, cyfres, genre, oedran a dyddiad cyhoeddi (e.e. adnodd BookFinder y BookTrust). Bydd manylion pob cyhoeddiad yn cynnwys adran 'Pa lyfr nesaf?' i gyfeirio'r defnyddiwr at deitlau eraill tebyg. Hefyd, bydd y wefan yn cynnwys y newyddion diweddaraf am lyfrau ac awduron, adolygiadau gan blant, cyfweiliadau ag awduron (yn ysgrifenedig a chlipiau fideo), a llyfrau llafar (gellid cydweithio â chyhoeddwy'r a phartneriaid eraill i gasglu'r recordiadau sy'n bodoli ar wefannau amrywiol a digido recordiadau o'r gorffennol). Byddai bodolaeth gwefan o'r fath yn gymorth i herio canfyddiadau negyddol nad oes digon o nifer nac amrywiaeth o lyfrau Cymraeg ar gael, gan y gellid cael mynediad mwy hwylus i'r deunydd nad sy'n bosibl drwy Gwales ar hyn o bryd.

**18: CLWB DARLLEN.** Dylid archwilio'r posibilrwydd o sefydlu clwb darllen i blant ac oedolion ifanc lle mae ymdeimlad cryf o berthyn a mantais o fod yn aelod (e.e. gostyngiad ar lyfrau, rhywbeth am ddim) ond lle nad oes gofynion gweinyddol ar ran ysgolion unigol.

**19: CANLLAW DARLLEN (READING GUIDE).** Yn hytrach na darparu catalog cyflawn o'r holl gyhoeddiadau, dylid llunio adnodd sy'n rhoi sylw i ddetholiad penodol o gyhoeddiadau i blant a phobl ifanc. Bydd yr adnodd hwn yn argymhell llyfrau, yn hytrach na'u rhestru, a bydd yn ganllaw hylaw ar gyfer darllenwyr, rhieni, llyfrgellwyr ac athrawon. [Am enghraifft o'r hyn sy'n bosibl gw. INIS Reading Guide, Children's Books Ireland (2015–2016) <http://childrensbooksireland.ie/reading-guide/>]

**20: RHANNU ARBENIGEDD.** Dylid ehangu'r cylch o bobl sy'n darllen llyfrau plant yn rheolaidd a'u defnyddio i greu rhwydwaith o sesiynau cynghori ar lyfrau (e.e. mewn ffair ysgol, canolfan hamdden, gwyliau, llyfrgell, siop lyfrau, eisteddfodau yn debyg i gynllun 'Book Clinics' Iwerddon <http://childrensbooksireland.ie/book-clinics/>).

**21: LLYFRAU A'R CYFRYNGAU.** Dylai Cyngor Llyfrau Cymru gydweithio'n agos ag S4C, Radio Cymru a datblygwyr cynnwys digidol er mwyn creu clystyrau amlgyfrwng a fydd yn galluogi darllenwyr i gysylltu llyfrau Cymraeg â'u diwylliant ehangach. Nid yw llyfr yn bodoli ar ei ben ei hun mewn gwagle: mae'r mwyaf llwyddiannus yn rhan o rwydwaith amlgyfrwng sy'n ehangu ac ymestyn ei apêl. Soniodd 71% o'r ymatebwyr eu bod am weld eitemau ar lyfrau ar raglenni radio a theledu. Canmolwyd y sylw diweddar i wobrau Tir Na n'Og i'r llyfrau plant gorau o Gymru, ond anelwyd y rhan fwyaf o'r eitemau teledu ac mewn print at oedolion. Gellid gwneud mwy i gyrraedd cynulleidfaoedd iau e.e. sefydlu paneli plant i gysgodir'r panel beirniad swyddogol a chreu rhaglen deledu i'w dilyn. Gellid hefyd bwysu am greu rhaglenni yn seiliedig ar gystadlaethau llwyddiannus 'Darllen Dros Gymru' (e.e. cwis llyfrau ar y radio/teledu rhwng y timau sy'n cyrraedd y rownd derfynol). Roedd nifer fawr o gyfranogwyr ifanc yn frwdfrydig o blaid gweld llyfrau Cymraeg yn rhan o'u diwylliant ehangach ar y sgrin, mewn gemau, nwyddau, ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar y we. Cyfeiriwyd yn benodol at addasiadau teledu, ac at ddefnyddio'r cyfryngau digidol e.e. YouTube a Vlogger. Yn y cyfryngau print, dylid cydweithio â *Golwg*, *Cylchgronau'r Urdd*, *O'r Pedwar Gwynt*, papurau bro ac ati er mwyn pwysu am ragor o sylw i lyfrau plant ac oedolion ifanc ac adolygiadau. Ymhellach, mae potensial i ddatblygu dulliau dychmygus, creadigol o greu a rhannu cynnwys yn ddigidol gan roi lle canolog i leisiau plant ac oedolion ifanc. Dylai Cyngor Llyfrau Cymru gydweithio â phartneriaid er mwyn datblygu platfformau a fydd ar y naill law yn rhoi llwyfan i ymateb, trafod ac addasu cynnwys sydd eisoes mewn print, ac ar y llaw arall yn rhoi gofod i ddatblygu syniadau newydd a fydd yn sail i lyfrau'r dyfodol.

**22: CYNHADLEDD LLYFRAU PLANT AC OEDOLION IFANC.** Dylai Cyngor Llyfrau Cymru gynnal cynadleddau rheolaidd a fydd yn rhoi'r cyfle i bobl o bob sector sy'n ymwneud â llyfrau plant rwydweithio a datblygu sgiliau a syniadau newydd. Dylai'r rhaglen gynnwys cyfraniadau sy'n adlewyrchu gwaith y gwahanol sectorau er mwyn sicrhau cynrychiolaeth o fyd addysg, cyhoeddi, llyfrgelloedd, awduron a dylunwyr. Byddai'n

gyfle hefyd i weisg arddangos eu cynnyrch diweddaraf, ac i feithrin cymuned broffesiynol ar gyfer awduron a dylunwyr er mwyn annog cydweithio a rhannu profiadau. Er mwyn ehangu effaith y gynhadledd y tu hwnt i'r diwrnod ei hun, dylid ei chefnogi â thudalen ar-lein o fewn y Wefan Llyfrau Plant a fydd yn cynnwys rhaglen y dydd, gwybodaeth am y siaradwyr, dolenni defnyddiol ac ati. Yn ogystal, dylid defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i annog ac ymestyn y drafodaeth.

"Hyrwyddo, hyrwyddo, marchnata, marchnata. A dyw llyfrau plant yn cael fawr ddim sylw ar y cyfryngau. Mae angen mwy o gyfleon i blant ddweud eu barn am lyfrau – adolygiadau byr, syml a gonest ar y radio/teledu (ar oriau brig!)/papurau cenedlaethol/bro."

"Mae angen creu fformat sy'n addas i fod yn aml-blatfform sy'n hwyl ac yn creu cymuned o ddarllenwyr fydd yn troi yn llysgenhadon naturiol ymysg eu cylchoedd ffrindiau. Dim proffil = Dim Ymwybyddiaeth = Dim darllen."

"Ysgolion yn hanfodol i gyrraedd yr ystod ehangaf o rieni na fyddent o anghenraid yn mynd i 'chwilio' ar y we na 'dod ar draws' llyfrau Cymraeg ym mybl eu llif Twitter neu FB personol."

"Mae angen dosbarthu'r deunydd trwy ysgolion. Tafleuni'r Cyngor Llyfrau yn nodi prisiau a theitlau, ond dim digon o ddisgrifiadau neu safoni/adolygu. Mae cael taflen trwy'r ysgolion gan gorff niwtral yn fodd o ganfod cyfrolau addas/atyniadol i blant ac o safon."

"Please provide bilingual sales materials for Welsh books, parents are not necessarily as fluent as their children and they are the decision makers when it comes to purchasing."

"Digwyddiadau; heriau; bws arddangos; talebau" "cynllun 'loyalty card'" "clwb darllen" "llyfrau am £1; cynigion arbennig" "cyrsiau hyfforddiant ac adnoddau i athrawon" "hyrwyddo a marchnata drwy'r flwyddyn (nid yn unig adeg y Nadolig a'r Haf)" "dathlu mwy ar ein awduron plant."

*Arolwg Ar-lein (2016–17)*

## STRATEGAETH LLYFRAU PLANT AC OEDOLION IFANC

---

Mae amcanion Cyngor Llyfrau Cymru a'i genhadaeth wedi eu pennu'n eglur (Edrych Ymlaen, 2016, tt.6–7) ac yn adlewyrchu ei rôl ganolog yn cefnogi'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Mae'r Cyngor yn gwbl ymroddedig i hybu'r diwydiant llyfrau plant Cymraeg, fel y dengys y gwaith ymchwil diweddar a gomisiynwyd ar y pwnc, gan gynnwys yr Arolwg hwn ei hun. Ond mae dogfennaeth y Cyngor yn adlewyrchu rhywfaint o ansicrwydd ynghylch union rôl y Cyngor yn y maes penodol hwn. Mae *Edrych Ymlaen*, er enghraifft, yn adnabod sawl elfen sy'n effeithio ar y diwydiant llyfrau plant, rhai yn cynnig cyfle ac eraill yn heriol, ond nid oes yma weledigaeth glir ynghylch y rôl y mae'r Cyngor yn dymuno ei gymryd (e.e. croesewir y pwyslais ar hybu llythrennedd o fewn y cwricwlwm ond ni nodir sut y bydd y Cyngor yn cefnogi hynny mewn ffordd weithredol). Cafwyd sylwadau gan rai o gyfranogwyr yr Arolwg sy'n ategu'r argraff hon wrth iddynt alw am strategaeth glir a dealltwriaeth o'r gwahanol swyddogaethau sy'n rhan o gynhyrchu a hyrwyddo llyfrau plant ac oedolion ifanc.

Byddai llunio strategaeth benodol ynghylch llyfrau plant ac oedolion ifanc yn tynnu'r holl swyddogaethau angenrheidiol hynny ynghyd o fewn un ymgyrch benodol ac yn adlewyrchu pa mor ganolog yw llyfrau plant ac oedolion ifanc er mwyn cynnal cymuned greadigol, ddeinamig, ddwyieithog.

**ARGYMHELLIAD 23: Dylid llunio *Strategaeth Llyfrau Plant* sy'n datgan yn hyderus y rôl arweiniol y mae Cyngor Llyfrau Cymru yn ei gymryd ym maes Llyfrau Cymraeg i blant ac oedolion ifanc. Bydd y strategaeth yn datgan cefnogaeth y Cyngor i gynnal diwydiant cyhoeddi llyfrau plant hyfyw sy'n**

- cefnogi mentergarwch ac arloesi
- cydnabod a hyrwyddo crefft arbennig awduron, darlunwyr a golygyddion llyfrau plant ac oedolion ifanc
- cynnig cydbwysedd priodol o ddeunydd gwreiddiol ac addasiadau
- cynhyrchu deunydd amrywiol, atyniadol ei ddiwyg a hygyrch ei gynnwys a'i iaith, ar gyfer amrediad eang o ddarllenwyr o bob cefndir
- darparu adnoddau i gyfoethogi gwybodaeth oedolion (e.e. rhieni, athrawon a llyfrgellwyr) am lyfrau plant ac ennyn eu brwdfrydedd a'u cefnogaeth
- arwain cydweithio â phartneriaid allanol er mwyn hyrwyddo darllen a chreadigrwydd ar blatfformau amlygrwng a gwneud llyfrau'n rhan fwy gweladwy o ddiwylliant ehangach plant a phobl ifanc.

## Cyfeiriadau

---

Beaufort Research, 2017. Prynu a Darllen Llyfrau Cymraeg: Arolwg Omnibws Siaradwyr Cymraeg 2016. Ar gael: <http://www.llyfrau.cymru/ni-us/cyhoeddiadau-publications/ymchwil-research> [gwelwyd 10 Mehefin 2017].

BookTrust. Adnodd 'BookFinder'. <http://www.booktrust.org.uk/books/bookfinder/> [gwelwyd Gorffennaf 2017]

Children's Books Ireland. Cynllun 'Book Clinics'. <http://childrensbooksireland.ie/book-clinics/> [gwelwyd Gorffennaf 2017].

Children's Books Ireland, INIS Reading Guide. <http://childrensbooksireland.ie/reading-guide/> [gwelwyd Gorffennaf 2017].

Cyngor Llyfrau Cymru, 2017. Cynllun Gweithredol 2017–18. Ar gael: <http://www.clc.org.uk/ni-us/cyhoeddiadau-publications/dogfennau-documents> [gwelwyd Gorffennaf 2017].

Cyngor Llyfrau Cymru, 2016. Edrych Ymlaen: Cynllun Strategaeth. Ar gael: <http://www.clc.org.uk/ni-us/cyhoeddiadau-publications/dogfennau-documents> [gwelwyd Gorffennaf 2017].

Cyngor Llyfrau Cymru, 2016. Strategaeth Tlodi Plant. Ar gael: <http://www.clc.org.uk/ni-us/cyhoeddiadau-publications/tlodiplant-childpoverty?diablo.lang=cym> [gwelwyd Gorffennaf 2017].

Donaldson, Graham, 2015. Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru. Ar gael: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf> [gwelwyd Gorffennaf 2017].

Jones, Mairwen, 2014. Cyhoeddi Llyfrau Cymraeg i Blant. Ar gael: <http://www.llyfrau.cymru/ni-us/cyhoeddiadau-publications/ymchwil-research> [gwelwyd Gorffennaf 2017].

Llywodraeth Cymru, 2015. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar gael: <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy> [gwelwyd Gorffennaf 2017].

Rhys, Mirain a Thomas, Enlli Môn, 2013. 'Bilingual Welsh–English children's acquisition of vocabulary and reading: implications for bilingual education', *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 16 (6), 633–656.

Thomas, Nia, 2014. Ymchwil i le Darllen ymysg Arferion Hamdden Siaradwyr Cymraeg 15-25 oed. Ar gael: <http://www.llyfrau.cymru/ni-us/cyhoeddiadau-publications/ymchwil-research> [gwelwyd Gorffennaf 2017].

Zubillaga, Naroa, 2017. 'Translations from and into Basque: The Case of Children's Literature', yn M. Borodo et al. (goln), *Moving Texts, Migrating People and Minority Languages*. Springer: USA, tt. 3–14.